WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Asesiad Strwythuredig 2017 – **Ymddiriedolaeth GIG Felindre**


Blwyddyn archwilio: 2017

Dyddiad cyhoeddi: January 2018

Cyfeirnod y ddogfen: 341A2018-19

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Y tîm a gyflawnodd y gwaith oedd Ann-Marie Harkin, David Thomas, Stephen Lisle, Gareth Lewis, Nathan Couch, Mike Jones a Gillian Gillett.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Cyflwyniad a chefndir 4

Canfyddiadau allweddol 4

Argymhellion 12

Adroddiad manwl

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi parhau â'i rhaglenni newid uchelgeisiol ac wedi gwneud gwelliannau i'w threfniadau llywodraethu ond mae rhai heriau anodd wedi dod i'r golwg a cheir risgiau ariannol cynyddol 14

Gwaith cynllunio a rheoli ariannol – mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyflawni ei tharged ar gyfer arbedion yn 2016-17 ac mae ar y trywydd cywir i gyflawni targed 2017-18, ond mae heriau ariannol wedi arwain at ymagwedd adweithiol tuag at arbedion ac mae angen i'r Ymddiriedolaeth ganolbwyntio ar arbedion mwy cynaliadwy yn y tymor hwy 14

Llywodraethu a sicrwydd – mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud rhai gwelliannau amlwg i'w threfniadau llywodraethu eleni ond cymysg yw'r cynnydd ym maes rheoli risg, mae heriau wedi codi mewn perthynas â chyllid a chynnal sefydliadau allanol ac mae angen atgyfnerthu trefniadau llywodraethu gwybodaeth ymhellach 20

Ffactorau eraill sy'n galluogi defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau – mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau â'i rhaglenni newid uchelgeisiol ac wedi nodi ei chynlluniau ar gyfer rhagoriaeth ddigidol ond mae gwendidau mewn cydberthnasau â chomisiynwyr a llwyddiant cymysg o ran materion sy'n ymwneud â'r gweithlu 33

Atodiadau

Atodiad 1 - Ymateb rheolwyr yr Ymddiriedolaeth i argymhellion asesiad strwythuredig 2017 40

# Adroddiad cryno

## Cyflwyniad a chefndir

1 Mae’r gwaith a wnawn fel rhan o’r asesiad strwythuredig yn helpu i lywio barn yr Archwilydd Cyffredinol ar drefniadau Ymddiriedolaeth GIG Felindre (yr Ymddiriedolaeth) i sicrhau defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o’i hadnoddau. Daeth ein gwaith yn 2016 i’r casgliad canlynol: mae trefniadau llywodraethu a sicrwydd wedi gwella unwaith eto eleni ac er bod trefniadau rheoli ariannol yn parhau’n gadarn ar y cyfan, mae’r Ymddiriedolaeth yn wynebu’r risg na fydd yn mantoli’r gyllideb.

2 Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae’r gwaith a wnaed gennym fel rhan o asesiad strwythuredig 2017 wedi adolygu agweddau ar drefniadau llywodraethu corfforaethol a rheoli ariannol yr Ymddiriedolaeth, ac, yn arbennig, y cynnydd a wnaed i ymdrin ag argymhellion y flwyddyn flaenorol. Er mwyn cydnabod y pwysau ariannol cynyddol a wynebir gan lawer o gyrff y GIG a’r her o gyflawni’r dyletswyddau i fantoli’r gyllideb a amlinellwyd yn Neddf Cyllid GIG Cymru (Cymru) 2014, rydym hefyd wedi adolygu trefniadau’r Ymddiriedolaeth i gynllunio a chyflawni arbedion ariannol.

3 Rydym hefyd wedi defnyddio gwaith asesiad strwythuredig eleni i gasglu tystiolaeth i ategu sylwadau ar gyfer Cymru gyfan. Nodir sut mae cyrff perthnasol yn y sector cyhoeddus yn gweithio tuag at fodloni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015. Cyflwynir adroddiad ar wahân yn cynnwys y sylwadau hyn ddechrau 2018.

4 Mae’r canfyddiadau a nodir yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar gyfweliadau, arsylwadau yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd, cyfarfodydd pwyllgorau a chyfarfodydd grwpiau rheoli, ynghyd ag adolygiadau o ddogfennau perthnasol a data perfformiad a chyllid.

## Canfyddiadau allweddol

5 Ein casgliad cyffredinol o waith asesiad strwythuredig 2017 yw bod yr Ymddiriedolaeth wedi parhau â’i rhaglenni newid uchelgeisiol ac wedi gwneud gwelliannau i’w threfniadau llywodraethu ond bod rhai heriau anodd wedi dod i’r golwg ac y ceir risgiau ariannol cynyddol. Ceir crynodeb o’r rhesymau dros ddod i’r casgliad hwn isod.

### Cynllunio a rheoli ariannol

6 Wrth adolygu trefniadau cynllunio a rheoli ariannol yr Ymddiriedolaeth, canfuom fod yr Ymddiriedolaeth wedi cyflawni ei tharged ar gyfer arbedion yn 2016-17 a’i bod ar y trywydd cywir i gyflawni targed 2017-18 ond bod heriau ariannol wedi arwain at ymagwedd adweithiol tuag at arbedion a bod angen i’r Ymddiriedolaeth ganolbwyntio ar arbedion mwy cynaliadwy yn y tymor hwy.

## Perfformiad ariannol

7 Yn 2016-17, parhaodd hanes yr Ymddiriedolaeth o gyflawni ei thargedau ariannol, a llwyddodd i fantoli'r gyllideb unwaith eto fel mewn blynyddoedd blaenorol. Er bod yr Ymddiriedolaeth wedi bod yn hunanddibynnol cyn hyn o ran cyflawni'r hyn a gynlluniwyd, cafodd yr Ymddiriedolaeth £400,000 o gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru er mwyn iddi fantoli'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn.

8 Daeth ein gwaith ar y broses o gynllunio arbedion ariannol eleni i'r casgliad bod yr Ymddiriedolaeth wedi gorgyflawni yn erbyn ei chynllun arbedion cyffredinol ar gyfer 2016-17 er gwaethaf yr amrywiad mawr yn yr hyn a gyflawnwyd gan gynlluniau arbedion unigol. Mae cynlluniau arbedion yr Ymddiriedolaeth yn dibynnu'n gynyddol ar arbedion anghylchol ac mae'r Bwrdd wedi cael ei hysbysu o'r posibilrwydd y bydd diffyg ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer 2017-18. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- yn ystod y flwyddyn ariannol 2016-17, cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth arbedion gwerth £1.788 miliwn yn erbyn cynllun o £1.436 miliwn.
- bu cryn amrywiad o ran llwyddiant cynlluniau arbedion unigol, sy'n awgrymu bod mwy o gyfle i wella'r ffordd y mae'r Ymddiriedolaeth yn cynllunio ac yn cyflawni arbedion.
- o'r holl arbedion a gyflawnodd yr Ymddiriedolaeth yn 2016-17, cyflawnwyd 29% drwy arbedion anghylchol. Mae'r cynllun arbedion ar gyfer 2017-18 yn cynyddu dibyniaeth yr Ymddiriedolaeth ar arbedion anghylchol.
- yn ei gyfarfod ym mis Medi 2017, hysbyswyd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth y gallai fod diffyg o £0.54 miliwn erbyn diwedd y flwyddyn ar gyfer 2017-18. Y prif reswm dros y diffyg posibl hwn yw bod yr Ymddiriedolaeth wedi tybio y câi cyllid cylchol ar gyfer dyfarniad cyflog 2016-17 ei roi gan ei chomisiynwyr. Bu'r mater yn destun cymrodeddu gan Lywodraeth Cymru ac ni fu'r Ymddiriedolaeth yn llwyddiannus. Er bod diffyg posibl wedi'i amlygu, mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i nodi y bydd yn mantoli'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn yn ei ffurflenni monitro i Lywodraeth Cymru, ond mae'n parhau i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a'r comisiynwyr.

## Cynllunio a chyflawni arbedion ariannol

9 Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod angen atgyfnerthu'r ffordd y bydd yn cynllunio arbedion yn y dyfodol drwy foderneiddio gwasanaethau a chyflwyno model contractio ariannol newydd ar y cyd â'r comisiynwyr. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae graddau'r newidiadau i nifer a gwerth cynlluniau arbedion yng Nghanolfan Ganser Felindre yn adlewyrchu pa mor heriol yw nodi arbedion cyflawnadwy a chylchol yn y ganolfan.
- tra bu'n aros am ganlyniad yr achos cymrodeddu y cyfeirir ato ym mharagraff 8, bu ansicrwydd yn yr Ymddiriedolaeth ynglŷn â lefel yr arbedion y byddai'n rhaid i'r Ymddiriedolaeth ei chyflawni. Arweiniodd hyn at

ymagwedd adweithiol tuag at y broses o gynllunio a chyflawni arbedion yn ystod 2017-18.

- mae'r Ymddiriedolaeth wedi cydnabod bod angen dull mwy cynaliadwy o gyflawni arbedion ac mae bellach yn chwilio am welliannau ac arbedion effeithlonrwydd yn y tymor hwy drwy nifer o raglenni ar raddfa fawr.

### Monitro arbedion ariannol

10 Wrth i'r pwysau ariannol gynyddu, bydd angen i'r Ymddiriedolaeth wella'r ffordd y mae'n dysgu o lwyddiant a chyfyngiadau cynlluniau arbedion blaenorol ac ystyried tynhau'r ffordd y mae uwch aelodau o staff yn craffu ar arbedion. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi cynnal gwerthusiad ffurfiol o lwyddiannau a chyfyngiadau cynlluniau arbedion 2016-17. Prin yw'r dystiolaeth sy'n awgrymu bod yr Ymddiriedolaeth yn dysgu o brofiad cynlluniau arbedion blaenorol er mwyn datblygu cynlluniau mwy effeithiol yn y dyfodol.
- mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Cynllunio a Pherfformiad yn cael gwybodaeth am berfformiad arbedion yn rheolaidd ond, oherwydd y diffyg manylder, nid yw'n hwyluso heriau na gwaith craffu manwl.

### Cynnydd o ran ymdrin ag argymhellion yr asesiad strwythuredig blaenorol ar gynllunio a rheoli ariannol

11 Y llynedd, argymhellwyd gennym y dylai'r Ymddiriedolaeth adolygu cynnwys ei hadroddiadau cyllid i'r Bwrdd. Dywedwyd y dylai'r adolygiad ystyried a fyddai'n fuddiol pe bai'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth fonitro fwy cadarn am y fantolen, crynodeb o risgiau a'u heffaith bosibl ac achosion o orwariant wedi'u cysylltu â dadansoddiad o'r problemau sylfaenol. Nid yw Ymddiriedolaeth wedi gweithredu'r argymhelliad hwn eto.

## Llywodraethu a sicrwydd

12 Wrth i ni adolygu'r trefniadau llywodraethu corfforaethol a sicrwydd i'r bwrdd, canfuom fod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud rhai gwelliannau amlwg i'w threfniadau llywodraethu eleni ond mai cymysg yw'r cynnydd ym maes rheoli risg, bod heriau wedi codi mewn perthynas â chyllid a chynnal sefydliadau allanol a bod angen atgyfnerthu trefniadau llywodraethu gwybodaeth ymhellach.

### Cynllunio strategol

13 Eleni, unwaith eto, sicrhaodd yr Ymddiriedolaeth gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer ei Chynllun Tymor Canolig Integredig ond arweiniodd tybiaethau cyllido nas gwireddwyd a'r bwlch cyllido a gafwyd o ganlyniad i hynny at gyfres o

gamau gweithredu i ailflaenoriaethu amcanion ei chynllun. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- ymddengys bod gallu ac adnoddau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer gwaith cynllunio yn gwella. Mae'r ffordd y mae'n mynd ati i gynllunio yn llai dibynnol ar y tîm cynllunio corfforaethol erbyn hyn, gyda mwy o ymwneud gan benaethiaid is-adrannol gwasanaethau, yn ogystal â staff o'r adran Cyllid a'r Gweithlu a Datblygu Sefydliadol.
- cymeradwywyd y Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2017-18 i 2019-20 gan Lywodraeth Cymru ond roedd yn cynnwys tybiaethau y byddai cyllid yr Ymddiriedolaeth yn cynyddu. Arweiniodd yr achos cymrodeddu at fwlch cyllido o £1.345 miliwn yn y cynllun.
- mae'r Ymddiriedolaeth wedi defnyddio ei chronfeydd wrth gefn i liniaru effaith y bwlch cyllido, ac mae wedi ymgymryd â gwaith cynllunio senarios er mwyn ystyried pa rai o'i gweithgareddau arfaethedig ar gyfer eleni y bydd angen eu gohirio o bosibl.
- mae problemau ariannu yn y rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser wedi dwysáu'r pwysau ariannol yr Ymddiriedolaeth. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi penderfynu talu costau parhaus y rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser ar ei menter ei hun tra'n aros am benderfyniad ar gyllid gan Lywodraeth Cymru.

## Strwythur y sefydliad

14 Mae'r Ymddiriedolaeth wrthi'n ceisio cael eglurder ynglŷn â'i threfniadau i gynnal sefydliadau allanol a'u hatgyfnerthu yn sgil adroddiad beirniadol ar gofnodi digwyddiadau a oedd yn ymwneud â Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru ac efallai y bydd angen i'r Ymddiriedolaeth feddwl yn fwy strategol ynglŷn â sut i greu trefniadau gweithio is-adrannol cydlynus. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae ein cyfweliadau ag Aelodau Annibynnol yn awgrymu bod diffyg eglurder o hyd ynglŷn â threfniadau llywodraethu Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru. Atgyfnerthwyd y diffyg eglurder mewn adroddiad gan Uned Gyflawni GIG Cymru ar drefniadau adrodd a rheoli digwyddiadau difrifol rhwng Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, yr Ymddiriedolaeth a gweddill GIG Cymru. Hefyd, gwnaeth adroddiad Archwilio Mewnol eleni sylwadau ar natur gymhleth trefniadau llywodraethu Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru.
- mae'r Ymddiriedolaeth bellach yn cymryd camau i atgyfnerthu'r trefniadau llywodraethu sy'n ymwneud â chynnal Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi drafftio nifer o ofynion gyda'r nod o egluro ac atgyfnerthu trefniadau llywodraethu a sicrwydd.
- mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymryd camau gweithredu pellach eleni i hyrwyddo cydweithio rhwng ei his-adrannau. Fodd bynnag, datgelodd ein

cyfweliadau mai cymysg fu'r farn ynghylch faint o gynnydd sydd wedi cael ei wneud.

## Fframweithiau effeithiolrwydd a sicrwydd y Bwrdd a'i bwyllgorau

15 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymryd camau gweithredu amlwg i wella effeithiolrwydd y Bwrdd a'i bwyllgorau ac mae'r rhaglen sicrwydd newydd ar gyfer y bwrdd yn cynnig cyfle allweddol i atgyfnerthu'r fframwaith sicrwydd. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae cydweithio agosach rhwng y tîm llywodraethu corfforaethol a chadeiryddion y pwyllgorau erbyn hyn. At hynny, mae adroddiadau ar y prif bwyntiau safonol newydd gan bwyllgorau bellach yn ychwanegu gwerth at yr adroddiadau diweddaru i'r Bwrdd gan gadeiryddion y pwyllgorau.
- nododd ein harsylwadau eleni fod cyfarfodydd y Bwrdd a'i bwyllgorau yn parhau i fod yn amgylcheddau cadarnhaol. Gwelsom rai enghreifftiau penodol o drafodaethau effeithiol iawn a ddisgrifir yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.
- mae gwelliannau i'r Is-bwyllgor Dysgu Sefydliadol yn mynd rhagddynt ond bu oedi cyn cyflwyno gwelliannau i'r Pwyllgor Ymchwil a Datblygu am fod dau swyddog allweddol wedi gadael yr Ymddiriedolaeth.
- mae'r Ymddiriedolaeth wedi rheoli'r trosiant ymhlith Aelodau Annibynnol yn effeithiol. Mae'r aelodau newydd wedi ymsefydlu'n gyflym ac maent eisoes yn cael effaith gadarnhaol.
- mae rhaglen sicrwydd i'r bwrdd ar gam cynnar iawn yn ei datblygiad. Y nod yw datblygu fframwaith sicrwydd wedi'i fapio'n llawn i'r bwrdd, gan ddechrau gydag amcanion corfforaethol yr Ymddiriedolaeth, drwy nodi'r risgiau i'r amcanion hynny ac yna benderfynu ar y rheolaethau sydd eu hangen i liniaru'r risgiau hynny. Mae angen codi ymwybyddiaeth o'r rhaglen ymhlith yr Aelodau Annibynnol er mwyn sicrhau bod y Bwrdd yn cymryd perchenogaeth o'r gwaith pwysig hwn.

## Rheoli risg

16 Cymysg fu'r cynnydd o ran mynd i'r afael â'n hargymhellion ym maes rheoli risg ac ni chafodd rhai o'r heriau sylweddol a wynebai'r Ymddiriedolaeth eleni eu disgrifio'n ddigon clir yn y gofrestr risg gorfforaethol. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymryd nifer o gamau dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf i atgyfnerthu'r ffordd y mae'n rheoli risg. Serch hynny, cymysg fu'r cynnydd o ran gweithredu ar ein hargymhellion ynglŷn â rheoli risg.
- rhoddodd adroddiad Archwilio Mewnol statws 'sicrwydd rhesymol' ar reoli risg eleni.

- er ein bod yn cydnabod bod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud gwelliannau dros nifer o flynyddoedd i'r ffordd y caiff risg ei thrafod, rydym hefyd yn nodi y gallai'r gofrestr risg gorfforaethol fod wedi cynnwys disgrifiadau mwy penodol o'r prif heriau sydd wedi codi eleni. Mae'r rhaglen sicrwydd i'r bwrdd bellach yn gyfle allweddol i ystyried y camau nesaf tuag at wella'r ffordd y rheolir risg.

## Llywodraethu gwybodaeth

17 Mae rhai polisïau ym maes llywodraethu gwybodaeth wrthi'n cael eu hadolygu ac er bod yr Ymddiriedolaeth yn paratoi ar gyfer y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol newydd, nid yw'r mater hwn yn ymddangos ar y gofrestr risg. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn dysgu gwersi yn sgil ymchwiliad mewnol i achos difrifol o fynediad diawdurdod at ddata. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- canfuom fod gan yr Ymddiriedolaeth bolisïau a gweithdrefnau llywodraethu gwybodaeth ar waith a bod rhai polisïau allweddol wrthi'n cael eu hadolygu.
- mae'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth a Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd ond nid yw gwarcheidwaid Caldicott yr Ymddiriedolaeth yn mynychu'n rheolaidd.
- mae'r Ymddiriedolaeth yn monitro ei chydymffurfiaeth â gofynion Caldicott yn ffurfiol ond nid yw'n cadw cofnod o brotocolau rhannu gwybodaeth na chytundebu datgelu data.
- mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu grŵp i weithredu ar ofynion y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol. O ystyried y risgiau ariannol a'r risg i enw da sy'n gysylltiedig â methu â chydymffurfio â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, dylai'r Ymddiriedolaeth ystyried cynnwys y mater hwn yn ei chofrestr risg.
- rhoddodd yr Ymddiriedolaeth wybod am dri achos a amheuir o fynediad diawdurdod at ddata i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth eleni. Ar adeg ein harchwiliad, roedd wedi cau dau o'r achosion ac nid oedd eto wedi penderfynu ar y trydydd achos, a oedd yn ymwneud ag ymosodiad seiber ar wasanaeth diogelu ymbelydredd. Yn ystod ein proses glirio, caeodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth y trydydd achos ac mae'r Ymddiriedolaeth bellach yn gweithredu ar argymhellion ynglŷn â gwella yn sgil ymchwiliad mewnol i'r mater hwn.

## Cyflwyno adroddiadau ar berfformiad

18 Erys y darlun o berfformiad yn yr Ymddiriedolaeth yn gadarnhaol ar y cyfan ac mae adroddiadau ar berfformiad yn parhau i ddatblygu ond ceir anawsterau o hyd o ran meincnodi a mesur canlyniadau. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- erys y lefelau o berfformiad a ddisgrifir yn adroddiadau perfformiad yr Ymddiriedolaeth yn gadarnhaol ar y cyfan;

- mae’r ffordd y mae’r Ymddiriedolaeth yn cyflwyno adroddiadau ar berfformiad wedi parhau i ddatblygu eleni, ond mae rhagor o gynnydd wedi cael ei lesteirio yn ôl pob tebyg am fod yr aelod o staff a oedd yn arwain yr adolygiad o fframwaith rheoli perfformiad yr Ymddiriedolaeth wedi gadael; ac
- mae’r Ymddiriedolaeth yn parhau i’w chael hi’n anodd meincnodi ei hun yn erbyn cyrff cymharu, a datblygu mesurau canlyniadau ystyrlon.

## Ffactorau eraill sy’n galluogi defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau

19 Canfuom fod yr Ymddiriedolaeth yn parhau â’i rhaglenni newid uchelgeisiol a’i bod wedi amlinellu ei chynlluniau ar gyfer rhagoriaeth ddigidol, ond mae gwendidau mewn cydberthnasau â chomisiynwyr a llwyddiant cymysg o ran materion sy’n ymwneud â’r gweithlu.

### Trefniadau i gefnogi’r broses o sicrhau newid

20 Mae’r Ymddiriedolaeth wrthi’n rheoli rhai rhaglenni newid mawr sy’n rhoi pwysau ychwanegol ar y sefydliad ond mae ganddynt y potensial i arwain at fanteision sylweddol. Daethom i’r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- Mae Felindre yn sefydliad cymharol fach sy’n mynd drwy rai rhaglenni newid uchelgeisiol. Mae graddau’r newidiadau yn rhoi pwysau ychwanegol ar staff ond maent hefyd yn rhoi cyfleoedd i staff herio eu hunain a sbarduno newid hirdymor, cadarnhaol.
- bu’r cynnydd yn arafach na’r disgwyl o ran gweithredu ar un o argymhellion asesiad strwythuredig 2015 i asesu risg mewn cysylltiad â digonolrwydd gallu uwch arweinwyr i gyflawni newidiadau ar raddfa fawr.
- mae’r Ymddiriedolaeth wedi canolbwyntio gryn dipyn ar y rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser eleni ac er ei bod wedi cymryd rhai camau allweddol (megis sicrhau cymeradwyaeth gynllunio amlinellol ar gyfer yr ysbyty newydd), mae hefyd wedi dechrau wynebu heriau o ran cyllid, amserlennu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.
- yn ogystal â’r rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser, mae’r Ymddiriedolaeth wedi lansio rhaglen newid uchelgeisiol yng Ngwasanaeth Gwaed Cymru, sef Cadwyn Cyflenwi Gwaed 2020, ac mae’n ceisio annog newid diwylliannol drwy ei strategaeth datblygu sefydliadol Adeiladu Rhagoriaeth. Mae gwerthusiad o Adeiladu Rhagoriaeth yn awgrymu bod angen cyflymu ei heffeithiau a sicrhau bod y strategaeth yn fwy gweladwy.

## Trefniadau i reoli'r gweithlu mewn ffordd effeithlon, effeithiol a darbodus

21 Cymysg yw perfformiad yr Ymddiriedolaeth o ran y gweithlu. Mae gwaith cynllunio'r gweithlu ar gam cynnar iawn yn ei ddatblygiad a bu anawsterau o ran recriwtio ac arfarniadau. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae asesiadau strwythuredig yn mynd yn ôl i 2014 wedi tynnu sylw at y ffaith bod lle i atgyfnerthu gwaith cynllunio'r gweithlu yn yr Ymddiriedolaeth. Nid yw modelu anghenion hirdymor y gweithlu yn beth cyffredin eto yn yr Ymddiriedolaeth.
- mae data ar fetrigau'r gweithlu yn awgrymu bod Felindre yn gwario swm cymharol lai ar staff asiantaeth na chyrff iechyd eraill a bod yr Ymddiriedolaeth yn perfformio'n gymharol dda o ran yr amser a gymerir i recriwtio staff. Er bod cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch yn is na chyfartaledd GIG Cymru, nid yw'r Ymddiriedolaeth yn cyrraedd targed Llywodraeth Cymru.
- mae ffocws estynedig gan reolwyr ar adolygiadau perfformiad a datblygu wedi cyfrannu at welliant cyffredinol mewn cyfraddau cwblhau. Fodd bynnag, mae perfformiad yr Ymddiriedolaeth yn parhau i fod yn is na'i tharged ar gyfer adolygiadau perfformiad a datblygu.
- mae'r Ymddiriedolaeth wedi wynebu cymhlethdodau o ran recriwtio eleni. Mae anhawster i recriwtio meddygon iau wedi arwain at gynlluniau i ddiwygio'r model clinigol yng Nghanolfan Ganser Felindre. Cafwyd problemau hefyd o ran recriwtio staff ar gyfer y rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser, yn ogystal â recriwtio fferyllwyr a gwyddonwyr yng Nghanolfan Ganser Felindre a Gwasanaeth Gwaed Cymru.

## Trefniadau ymgysylltu â rhanddeiliaid a gwaith partneriaeth

22 Mae problemau o ran cyllid wedi amlygu gwendidau yn y gydberthynas rhwng yr Ymddiriedolaeth a'i chomisiynwyr, ac erys problemau o hyd o ran effeithiolrwydd y Fforwm Partneriaeth Lleol. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae'r achos cymrodeddu a'i faterion cyllido cysylltiedig wedi amlygu gwendidau yn y gydberthynas rhwng yr Ymddiriedolaeth a'i byrddau iechyd comisiynu; ac
- er bod yr Ymddiriedolaeth wedi adolygu cylch gorchwyl y Fforwm Partneriaeth Lleol, canfuom hefyd fod problemau o hyd o ran presenoldeb ac ymgysylltu gwael yn y fforwm.

### TGCh a’r defnydd o dechnoleg

23 Mae diffyg strategaeth gwybodeg wedi cyfrannu at oedi wrth fabwysiadu ymagwedd Ymddiriedolaeth gyfan tuag at wybodeg. Mae rhaglen rhagoriaeth ddigidol amlinellol strategol newydd yn gonglfaen allweddol o ran atgyfnerthu’r ffordd y caiff gofynion lleol a chenedlaethol eu bodloni. Daethom i’r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- yn ystod y blynyddoedd diwethaf nid oedd gan yr Ymddiriedolaeth strategaeth ddigidol na strategaeth gwybodeg gyfredol. Fodd bynnag, cymeradwywyd rhaglen amlinellol strategol ar gyfer Rhagoriaeth Ddigidol Gwybodeg gan y Bwrdd eleni; ac
- ar adeg drafftio, roedd yr Ymddiriedolaeth yn bwriadu datblygu strategaeth ddigidol a chynnal adolygiad o wybodeg drwy’r sefydliad cyfan er mwyn nodi meysydd lle y gellir mabwysiadu dull corfforaethol o ymdrin â gwybodeg.

# Argymhellion

24 Nodir yr argymhellion sy’n deillio o asesiad strwythuredig 2017 yn Arddangosyn 1. Bydd hefyd angen i’r Ymddiriedolaeth barhau i ganolbwyntio ar weithredu ar unrhyw argymhellion blaenorol nas cwblhawyd eto.

25 Caiff ymateb rheolwyr yr Ymddiriedolaeth yn nodi sut mae’n bwriadu ymateb i’r argymhellion hyn ei gynnwys yn Atodiad 1.

### Arddangosyn 1: Argymhellion 2017

| Argymhellion 2017 |
|---|
| **Cynllunio arbedion ariannol**<br>A1 Dylai’r Ymddiriedolaeth adolygu’r ffordd y mae’n cynllunio arbedion ariannol er mwyn lleihau ei dibyniaeth ar gynllunio arbedion anghylchol a nodi opsiynau arbedion cynaliadwy realistig yn y dyfodol. |
| **Gwerthuso arbedion yn ffurfiol**<br>A2 Dylai’r Ymddiriedolaeth werthuso llwyddiant a methiant cynlluniau arbedion yn flynyddol a defnyddio’r gwersi a ddysgwyd i wella’r ffordd y mae’n cynllunio arbedion. Dylai canlyniadau’r gwerthusiad gael eu cynnwys fel gwybodaeth sy’n ategu’r cynllun arbedion a gymeradwyir gan y Pwyllgor Cynllunio a Pherfformiad bob blwyddyn. |
| **Cyflwyno adroddiadau ar arbedion**<br>A3 Dylai’r Ymddiriedolaeth adolygu’r wybodaeth am arbedion ariannol sy’n cael ei chynnwys ar hyn o bryd yn yr adroddiad ariannol a ddefnyddir gan y Bwrdd a’i bwyllgorau. Dylai’r adolygiad ystyried p’un a yw’r lefel bresennol o wybodaeth yn ddigonol i’w gwneud yn bosibl i graffu’n fanwl ar gyflawni cynlluniau arbedion a thargedau. |

| Argymhellion 2017 | |
|---|---|
| **Craffu ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig** | |
| A4 | O ystyried yr anawsterau o hyd o ran y bwlch cyllido yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig, a'r tebygolrwydd y bydd y pwysau ariannol yn parhau, dylai'r Bwrdd gytuno ar ffordd o gryfhau'r ffordd y mae'n craffu ar ddrafftiau o'r Cynllun Tymor Canolig Integredig a'r tybiaethau ariannol a geir ynddo yn y dyfodol. |
| **Gwell data ar gost a galw** | |
| A5 | Mae'r gwaith presennol ar fodel contractio ariannol yn hanfodol i alluogi'r Ymddiriedolaeth i gryfhau ei sefyllfa mewn cyd-drafodaethau ynglŷn â'i chyllid, ac atgyfnerthu'r ffordd y mae'n cynllunio arbedion. Dylai'r Ymddiriedolaeth amlinellu amserlen glir ar gyfer cwblhau'r gwaith hwn a dylai roi adroddiadau rheolaidd ar gynnydd i'r Bwrdd. |
| Trefniadau cynnal sefydliadau allanol | |
| A6 | Yn ystod y flwyddyn nesaf, dylai'r Ymddiriedolaeth adolygu cynnydd o ran gweithredu Gofynion Sicrwydd Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru er mwyn asesu a yw'r trefniadau newydd yn arwain at drefniadau llywodraethu a sicrwydd mwy effeithiol. |
| **Rhaglen sicrwydd y Bwrdd** | |
| A7 | O ystyried y lefel isel o ymwybyddiaeth o raglen sicrwydd y bwrdd ymhlith yr Aelodau Annibynnol, dylai'r Ymddiriedolaeth ddatblygu cynllun i wella perchenogaeth, cyfranogiad ac ymwybyddiaeth o'r rhaglen o fewn y Bwrdd. |
| **Rheoli risg** | |
| A8 | Fel rhan o raglen sicrwydd y bwrdd dylai'r Ymddiriedolaeth adolygu ei chofrestr risg gorfforaethol, er mwyn sicrhau ei bod yn cwmpasu risgiau sy'n gysylltiedig â chyflawni blaenoriaethau sefydliadol yr Ymddiriedolaeth, yn ogystal â'r risgiau gweithredol mwyaf. Dylai'r adolygiad gynnwys elfen ôl-weithredol er mwyn gweld p'un a allai ac a ddylai'r risgiau a ddaeth i'r golwg eleni, fod wedi cael eu disgrifio'n fwy effeithiol yn y gofrestr. |
| **Llywodraethu gwybodaeth** | |
| A9 | Ochr yn ochr â chreu ei chofrestr o asedau gwybodaeth, dylai'r Ymddiriedolaeth ddatblygu cofnod o brotocolau rhannu gwybodaeth a chytundebau datgelu data er mwyn sicrhau ei bod yn olrhain y ffyrdd y caiff gwybodaeth bersonol ei rhannu. |
| A10 | O ystyried pwysigrwydd y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol a'r dirwyon mawr posibl, dylai'r Ymddiriedolaeth ystyried cynnwys y posibilrwydd o fethu â chydymffurfio â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yn ei chofrestr risg. |
| **Gallu arwain** | |
| A11 | O ystyried graddau'r newidiadau sy'n mynd rhagddynt yn y sefydliad, dylai'r Ymddiriedolaeth, fel mater o frys, weithredu ar ein hargymhelliad yn 2015 ynglŷn ag asesu risg o ran digonolrwydd uwch arweinwyr a'r gallu i reoli newid. |

# Adroddiad manwl

## Mae'r Ymddiriedolaeth wedi parhau â'i rhaglenni newid uchelgeisiol ac wedi gwneud gwelliannau i'w threfniadau llywodraethu ond mae rhai heriau anodd wedi dod i'r golwg a cheir risgiau ariannol cynyddol

26 Manylir ar y canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn isod.

### Cynllunio a rheoli ariannol - cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth ei tharged ar gyfer arbedion yn 2016-17 ac mae ar y trywydd cywir i gyflawni targed 2017-18 ond mae heriau ariannol wedi arwain at ymagwedd adweithiol tuag at arbedion ac mae angen i'r Ymddiriedolaeth ganolbwyntio ar arbedion mwy cynaliadwy yn y tymor hwy

27 Yn ogystal â rhoi sylwadau ar sefyllfa ariannol gyffredinol yr Ymddiriedolaeth, mae ein gwaith mewn perthynas â'r asesiad strwythuredig yn 2017 wedi ystyried y camau gweithredu y mae'r Ymddiriedolaeth yn eu cymryd i fantoli'r gyllideb a chreu cynaliadwyedd ariannol yn y tymor hwy. Rydym wedi asesu'r trefniadau corfforol ar gyfer cynllunio a chyflawni arbedion ariannol yng nghyd-destun sefyllfa ariannol gyffredinol y sefydliad. Nid ydym wedi ystyried y dulliau manwl o gynllunio a chyflawni cynlluniau arbedion unigol. Nodir ein canfyddiadau isod.

#### Perfformiad ariannol – gorgyflawnodd yr Ymddiriedolaeth yn erbyn ei chynllun arbedion cyffredinol ar gyfer 2016-17 er gwaethaf yr amrywiad mawr yn yr hyn a gyflawnwyd gan gynlluniau arbedion unigol. Mae cynlluniau arbedion yr Ymddiriedolaeth yn dibynnu'n gynyddol ar arbedion anghylchol ac mae'r Bwrdd wedi cael ei hysbysu o'r posibilrwydd y bydd diffyg ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer 2017-18

28 Yn 2016-17, parhaodd hanes yr Ymddiriedolaeth o gyflawni ei thargedau ariannol, a llwyddodd i fantoli'r gyllideb unwaith eto fel mewn blynyddoedd blaenorol. Er bod yr Ymddiriedolaeth wedi bod yn hunanddibynnol cyn hyn o ran cyflawni'r hyn a gynlluniwyd, cafodd yr Ymddiriedolaeth £400,000 o gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru er mwyn iddi fantoli'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn.

29 Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016-17, cytunodd yr Ymddiriedolaeth ar gynllun arbedion gwerth £1.436 miliwn, a chyflawnodd arbedion gwerth £1.788 miliwn yn ei erbyn. Nododd yr Ymddiriedolaeth 16 o gynlluniau arbedion er mwyn ei helpu i gyflawni'r targed hwn o ran arbedion. Dengys Arddangosyn 2 ddata o'r cynllun arbedion, gan roi manylion am berfformiad arfaethedig a gwirioneddol yn erbyn pob un o'r cynllun arbedion.

30 Er gwaethaf gorgyflawni yn erbyn ei tharged o gyfanswm o £1.436 miliwn o arbedion, bu cryn amrywiad o ran llwyddiant cynlluniau arbedion unigol. Gwnaeth pum cynllun a ddyrannwyd i Ganolfan Ganser Felindre dangyflawni o £200,000 i gyd yn erbyn eu targed. Gwnaeth pum cynllun orgyflawni'n sylweddol, gan gyflawni arbedion ychwanegol gwerth £552,000, a fu o gymorth o ran y sefyllfa gyffredinol. Mae graddfa'r gorgyflawniadau a'r tangyflawniadau yn awgrymu bod cyfle i'r Ymddiriedolaeth wella ymhellach ar y ffordd y mae'n cynllunio ac yn cyflawni arbedion.

Arddangosyn 2: Crynodeb o gyflawni cynlluniau arbedion 2016-17

Mae'r tabl yn disgrifio'r perfformiad yn erbyn cynlluniau arbedion ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

| Cynllun Arbedion | Cylchol / Anghylchol | Targed Blynyddol £000oedd | Cyflawnwyd £000oedd | Amrywiant £000oedd |
|---|---|---|---|---|
| **Cynlluniau a dangyflawnwyd yn erbyn y targed blynyddol** | | | | |
| **Canolfan Ganser Felindre** | | | | |
| Rheoli meddyginiaethau | Cylchol | 80 | 0 | -80 |
| Arbedion Effeithlonrwydd Caffael | Cylchol | 40 | 0 | -40 |
| Gwybodaeth Cleifion Electronig | Cylchol | 15 | 0 | -15 |
| Arbedion Cyfleustodau | Anghylchol | 25 | 0 | -25 |
| Lleihau Gwariant ar Staff Fferyllfa Asiantaeth | Anghylchol | 40 | 0 | -40 |
| | **Is-gyfanswm** | **200** | **0** | **-200** |
| **Cynlluniau a gyflawnodd y targed blynyddol** | | | | |
| **Canolfan Ganser Felindre** | | | | |
| Cynhyrchu Incwm | Cylchol | 100 | 100 | 0 |
| Gohirio Costau'r Cynllun Tymor Canolig Integredig | Anghylchol | 150 | 150 | 0 |
| Incwm arall nad yw'n ymwneud â chyflogau ac incwm yr Uned Treialon Clinigol | Cylchol | 53 | 53 | 0 |
| **Gwasanaeth Gwaed Cymru** | | | | |
| Arbedion Effeithlonrwydd Caffael | Cylchol | 50 | 50 | 0 |
| Arbedion Effeithlonrwydd Gwella Gwasanaeth | Cylchol | 100 | 100 | 0 |
| **Gwasanaethau Corfforaethol** | | | | |
| Rheolaethau Swyddi Gwag | Cylchol | **53** | **53** | **0** |
| | **Is-gyfanswm** | **506** | **506** | **0** |
| **Cynlluniau a orgyflawnwyd yn erbyn y targed blynyddol** | | | | |
| **Canolfan Ganser Felindre** | | | | |
| Rheolaethau Swyddi Gwag Lle Aseswyd Risg | Cylchol | 300 | 450 | 150 |
| Incwm ychwanegol yr Uned Treialon Clinigol | Anghylchol | 30 | 120 | 90 |
| Llithriant ar Brosiectau | Anghylchol | 100 | 245 | 145 |

| Cynllun Arbedion | Cylchol / Anghylchol | Targed Blynyddol £000oedd | Cyflawnwyd £000oedd | Amrywiant £000oedd |
|---|---|---|---|---|
| **Cynlluniau a orgyflawnwyd yn erbyn y targed blynyddol** | | | | |
| **Gwasanaeth Gwaed Cymru** | | | | |
| Cynhyrchu Incwm | Cylchol | 147 | 207 | 60 |
| Ailalinio'r Gweithlu | Cylchol | 153 | 260 | 107 |
| | **Is-gyfanswm** | **730** | **1,282** | **552** |
| | | | | |
| | **Cyfanswm** | **1,436** | **1,788** | **352** |

Ffynhonnell: Ymddiriedolaeth GIG Felindre

31 Wrth lunio cynlluniau arbedion, mae'n bwysig ystyried y cydbwysedd rhwng cynlluniau arbedion cylchol ac anghylchol ac effaith y cynlluniau hynny. Dylai mwy o ffocws ar gynlluniau cylchol olygu y bydd llai o bwysau ar y gyllideb yn ystod y blynyddoedd dilynol. Yn Felindre, canfuom, o'r holl arbedion a gyflawnwyd yn 2016-17, fod 29% ohonynt yn anghylchol. At hynny, mae cynllun arbedion yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2017-18 yn cynnwys arbedion anghylchol arfaethedig gwerth £450,000 i gyd, sef cynnydd o £105,000 o gymharu â chyfanswm o £345,000 ar gyfer 2016-17.

32 Erbyn y chweched mis o 2017-18, roedd yr Ymddiriedolaeth wedi rhagori ar ei hamserlen arfaethedig ar gyfer cyflawni arbedion, ar ôl cyflawni arbedion gwerth £732,000 yn erbyn targed o £685,000. Roedd y ganolfan ganser wedi cyflawni arbedion gwerth £306,000 yn erbyn arbedion arfaethedig o £300,000 ac roedd Gwasanaeth Gwaed Cymru wedi cyflawni arbedion gwerth £356,000 yn erbyn arbedion arfaethedig o £295,000.

33 Yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Medi 2017 nododd yr Ymddiriedolaeth y gallai fod diffyg o £540,000 erbyn diwedd y flwyddyn 2017-18. Y prif ffactor sy'n cyfrannu at y sefyllfa hon yw bod un o dybiaethau ariannu allweddol yr Ymddiriedolaeth yn ei Gynllun Tymor Canolig Integredig wedi methu â chael ei gwireddu, gan achosi ansicrwydd a chymhlethdodau mewn perthynas â'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd yr Ymddiriedolaeth wedi tybio y byddai'n cael cyllid gan ei chomisiynwyr[1] ar gyfer effaith gylchol dyfarniad cyflog 2016-17 a'r newidiadau i yswiriant gwladol. Fodd bynnag, bu'r mater yn destun cymrodeddu yn Llywodraeth Cymru a benderfynodd o blaid y comisiynwyr. Arweiniodd hyn at ddiffyg ariannu sylfaenol o £1.345 miliwn yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig. Trafodir y materion hyn yn fanylach ym mharagraff 38. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi wynebu nifer o bwysau cost ychwanegol yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys llenwi swyddi gwag penodol yng Nghanolfan Ganser Felindre a'r ffaith bod sawl ffrwd incwm anghylchol wedi dod i ben. Cafodd nifer o fesurau eu cynnig i leihau'r bwlch cyllido, sy'n cynnwys nodi arbedion ychwanegol. Fodd bynnag, ceir ansicrwydd cynyddol ynglŷn â gallu'r Ymddiriedolaeth i fantoli'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn.

[1]Mae'r Ymddiriedolaeth yn cael y mwyafrif helaeth o'i refeniw gan Lywodraeth Cymru, trefniadau comisiynu â'r byrddau iechyd a Phwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru.

### Cynllunio a chyflawni arbedion – mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod angen atgyfnerthu'r ffordd y bydd yn cynllunio arbedion yn y dyfodol drwy foderneiddio a chyflwyno model contractio ariannol newydd ar y cyd â'r comisiynwyr

34 Mae'n rhaid i bob bwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth yng Nghymru nodi arbedion er mwyn sicrhau bod eu gwariant o fewn eu dyraniad refeniw. I lawer o gyrff, mae pwysau cost cynyddol yn ei gwneud hi'n gynyddol anodd pennu cyllideb fantoledig. Mae dulliau traddodiadol o gyflawni arbedion ledled Cymru wedi canolbwyntio ar fesurau rheoli costau, arbedion caffael, rhewi ymgyrchoedd recriwtio a newidiadau o ran cymysgedd sgiliau neu gymysgedd graddau staff, ymhlith eraill. Unwaith y rhoddir y dulliau gweithredu hyn ar waith, bydd yn ofynnol i gyrff iechyd feddwl yn wahanol, gan na fydd mesurau cwtogi costau mor effeithiol. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn ystyried y trefniadau corfforaethol ar gyfer cynllunio a chyflawni arbedion. Nid ydym wedi adolygu cynllun, atebolrwydd, risgiau na pherfformiad cynlluniau arbedion unigol.

35 Mae Cynllun Tymor Canolig Integredig yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys arbedion clir a ragwelwyd ar gyfer y tair blwyddyn rhwng 2016-17 a 2018-19. Cymharwyd y cynlluniau arbedion a nodwyd yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru â'r cynlluniau a nodwyd yng nghynllun arbedion terfynol 2016-17. Yn wreiddiol, dim ond pum cynllun a nodwyd, ond roedd y cynllun terfynol yn cynnwys chwe chynllun arall (y mae pump ohonynt yn rhai anghylchol). At hynny, mewn pedwar o'r cynlluniau, cafwyd gwahaniaethau mawr yn y targedau arbedion cychwynnol a'r targedau arbedion terfynol a gyflwynwyd yn y cynllun. Mewn tri chynllun, cafodd y targed ei ostwng o £250,000 ac mewn un cynllun cafodd y targed ei gynyddu £210,000. Mae graddau'r newidiadau hyn yn adlewyrchu natur heriol nodi arbedion cyflawnadwy a chylchol yn y ganolfan ganser.

36 Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru a Chanolfan Ganser Felindre yn cytuno ar gynlluniau arbedion ar lefel yr Uwch Dîm Rheoli. Y nod yw sicrhau bod digon o ffocws ac atebolrwydd o ran cynllunio a chyflawni arbedion yn weithredol yn y ddwy is-adran. Canfuom fod y cynlluniau arbedion yn cael eu trafod yn agored gan Uwch Dimau Rheoli er mwyn rhannu profiadau a heriau, a chaiff rheolwyr llinell gwasanaethau a staff eu hysbysu am ganlyniadau'r trafodaethau hyn.

37 Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru yn cytuno ar arbedion ar ddechrau'r flwyddyn ariannol sy'n cael eu hymgorffori yn y cyllidebau gwasanaeth a ddyrennir ar gyfer y flwyddyn. Yna caiff y broses o gyflawni arbedion ei monitro drwy brosesau monitro cyllidebol misol. Yng Nghanolfan Ganser Felindre, caiff arbedion eu dileu mewn cyllidebau pan fydd cynlluniau wedi cael eu nodi ac mae rheolwr arweiniol yn atebol am gyflawni pob cynllun. Caiff pob cynllun ei fonitro drwy'r broses monitro cyllidebol fisol a chyfarfodydd rheolaidd yr Uwch Dîm Rheoli, drwy adroddiadau perfformiad a rhagolwg ariannol ffurfiol.

38 O'n hadolygiad o'r adroddiadau cyllid a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Cynllunio a Pherfformiad a Bwrdd yr Ymddiriedolaeth, roedd yn amlwg bod cynlluniau arbedion yn cael eu proffilio drwy gydol y flwyddyn. Fodd bynnag, fel y crybwyllwyd yn gynharach, mae'r achos cymrodeddu wedi cael effaith fawr ar y broses o gynllunio arbedion yn yr Ymddiriedolaeth. Tra oedd yn aros am benderfyniad Llywodraeth Cymru bu ansicrwydd ynglŷn â lefel yr arbedion y byddai'n rhaid i Felindre ei chyflawni. Mae'r ansicrwydd hwn wedi arwain at ymagwedd adweithiol tuag at arbedion yng Nghanolfan Ganser Felindre ac mae arbedion anghylchol ar gyfer y ganolfan ganser bellach wedi'u pwysoli tuag at ddiwedd y flwyddyn. Yn draddodiadol, ni fu problemau gan Wasanaeth Gwaed Cymru o ran cyflawni targedau arbedion.

39 Nid ymddengys bod proses ffurfiol ar waith lle y rhoddir digon o amser ymlaen llaw i werthuso llwyddiant a methiant cynlluniau arbedion blaenorol yn ffurfiol, asesu risgiau yn yr amgylchedd mewnol ac allanol a all effeithio ar y broses o gyflawni arbedion a nodi opsiynau amgen.

40 Ymddengys bod y mwyafrif o'r cynlluniau arbedion ar gyfer 2016-17 a 2017-18 yn canolbwyntio ar reoli costau gweithredu ac, fel y nodwyd ym mharagraff 31, ceir dibyniaeth gynyddol ar arbedion anghylchol. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cydnabod bod y dull gweithredu trafodiadol hwn yn anghynhaliadwy ac mae wrthi'n canolbwyntio ar nodi arbedion trawsnewidiol mwy cynaliadwy drwy amrywiol raglenni gwaith, fel y'i nodir isod:

- Rhaglen i wella gwasanaethau canser yn Ne-ddwyrain Cymru yw'r rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser. Bydd y rhaglen yn cynnwys adeiladu ysbyty canser newydd, is-uned radiotherapi, a model clinigol newydd ar gyfer darparu gofal yn agosach i gartrefi cleifion a gwell integreiddio rhwng clinigwyr arbenigol yr Ymddiriedolaeth a'r rhai sy'n gweithio mewn ysbytai a meddygfeydd ledled y rhanbarth. Mae'r rhaglen yn anelu at enillion effeithlonrwydd a chynhyrchiant drwy leihau dyblygu a gwastraff, gan ei gwneud yn bosibl i fuddsoddi mewn gweithgarwch cleifion ychwanegol, technolegau a thriniaethau newydd.
- Mae Cadwyn Cyflenwi Gwaed 2020 yn fenter eang ei chwmpas yng Ngwasanaeth Gwaed Cymru sy'n edrych ar y cyflenwad cyfan o elfennau gwaed o gynllunio, casglu a phrosesu hyd at ddosbarthu i ysbytai. Mae'r fenter yn anelu at fod yn rhaglen o wella gwasanaethau er mwyn sicrhau bod y sefydliad yn parhau i fod yn addas at y diben nawr ac yn y dyfodol ac mae'n gobeithio cyflawni arbedion effeithlonrwydd yn ogystal â gwelliannau i wasanaethau.
- Dogfen ddrafft a ddatblygwyd yng Nghanolfan Ganser Felindre yw **Darparu Gwasanaethau Darbodus a Gofal Iechyd yn Seiliedig ar Werth**. Diben y papur yw dangos bod gwasanaethau yn cael eu darparu mewn ffordd ddarbodus ac effeithiol ac mae'r ddogfen yn nodi cynlluniau i wella'r ffordd y darperir gwasanaethau ymhellach, gyda'r nod o wella canlyniadau a lleihau costau.
- Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu cyflwyno model contractio ariannol newydd, er mwyn rhoi dadansoddiad gwell, mwy cywir o gostau a gwariant gweithgarwch, yn ogystal â chreu'r potensial i wneud rhagor o feincnodi â chyrff cymharu. Gallai hyn gyfrannu at ddatblygu cynlluniau arbedion ac arbedion effeithlonrwydd mwy cadarn a chynaliadwy yn y dyfodol. Tybir bod hwn yn un o'r prosiectau pwysicaf sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd yn yr Ymddiriedolaeth, yn enwedig yng ngoleuni'r sefyllfa ariannol bresennol. Rhagwelir y bydd y model yn dechrau gweithredu ar ffurf gysgodol ym mis Ebrill 2018 a'r targed yw y bydd yn gweithredu'n llawn erbyn mis Hydref/Tachwedd 2018.

41 O'n cyfweliadau a'n hadolygiadau o ddogfennau, ymddengys bod gwasanaethau corfforaethol, megis Cyllid a'r Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, yn rhoi cymorth priodol i alluogi deiliaid cyllideb i gyflawni arbedion ariannol. Rhoddir y cymorth hwn drwy ymgysylltu gweithredol yn y ddwy is-adran ac ar lefel Uwch Dîm Rheoli. Rhoddwyd cymorth hefyd gan wasanaethau corfforaethol eraill, megis Gwybodeg ac Ystadau, yn ôl y gofyn.

Monitro arbedion ariannol – gyda'r pwysau ariannol cynyddol, bydd angen i'r Ymddiriedolaeth wella'r ffordd y mae'n dysgu o lwyddiant a chyfyngiadau cynlluniau arbedion blaenorol ac ystyried tynhau'r ffordd y mae'n craffu ar arbedion

42 Canfuom na chafodd gwerthusiad ffurfiol o lwyddiannau a methiannau cynlluniau arbedion 2016-17 ei gynnal ar lefel is-adrannol ac na chyflwynwyd adroddiad ar werthusiad o'r fath ar lefel pwyllgor nac ar lefel y Bwrdd yn yr Ymddiriedolaeth. Felly, prin yw'r dystiolaeth sy'n awgrymu bod yr Ymddiriedolaeth yn dysgu o brofiad cynlluniau arbedion blaenorol ac yn datblygu dulliau gweithredu amgen. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i Ganolfan Ganser Felindre lle ceir ymagwedd adweithiol tuag at gynllunio a chyflawni arbedion a dibyniaeth ar arbedion anghylchol.

43 Mae'r Bwrdd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad ariannol yr Ymddiriedolaeth, gan gynnwys cyflawni arbedion, yn rheolaidd. Mae'r adroddiad a gyflwynir i'r Bwrdd ar y sefyllfa ariannol yn cynnwys adran ar arbedion sy'n cynnwys adroddiad lefel uchel ar berfformiad yn erbyn targedau a chrynodeb o gynllun arbedion yr Ymddiriedolaeth. Mae'r adroddiad hwn yn darparu digon o wybodaeth i fodloni dyletswydd gyffredinol i oruchwylio perfformiad ariannol, ond nid yw'n darparu digon o fanylion i allu herio'n fanwl. Nododd adolygiad o gofnodion y Bwrdd mai cyfyngedig yw'r trafodaethau ynglŷn ag arbedion ariannol.

44 Caiff y gwaith o oruchwylio perfformiad ariannol ei ddirprwyo gan y Bwrdd i'w Bwyllgor Cynllunio a Pherfformiad a'r Bwrdd Rheoli Gweithredol. Nododd adolygid o gofnodion a chamau gweithredu'r ddau fforwm bod adolygiad lefel uchel o arbedion yn cael ei gynnal. Mae'r ddau fforwm yn cael yr un adroddiad â'r Bwrdd, nad yw'n darparu digon o fanylion i herio'n fanwl, fel y'i nodir uchod. At hynny, ymddengys nad oes unrhyw gamau gweithredu penodol i fynd i'r afael â risgiau na chaiff cynlluniau unigol na'r cynllun arbedion cyffredinol eu cyflawni wedi cael eu datblygu na'u monitro.

45 Yng Nghanolfan Ganser Felindre, mae Bwrdd Cynaliadwyedd, sydd wedi cael y dasg o oruchwylio trefniadau rheoli ariannol y ganolfan ganser ac mae'n mynd ati i fonitro'r broses o gyflawni arbedion.

46 Yn ystod y flwyddyn, mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnal asesiad risg parhaus o'r holl gynlluniau arbedion, gan ddefnyddio statws coch-melyn-gwyrdd. Defnyddir y broses i fonitro statws y broses o gyflawni arbedion yn erbyn targed ar gyfer cynlluniau arbedion a'r cynllun arbedion cyffredinol. Canfu ein hadolygiad o'r adroddiadau ariannol sy'n cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio a Pherfformiad a'r Bwrdd nad oedd yr asesu risg yn cael ei ddiweddaru lle roedd cynlluniau yn tangyflawni yn erbyn y targed yn y deuddegfed mis.

47 O ystyried y cydbwysedd rhwng cost, amseroldeb ac ansawdd gwasanaethau, mae'n bwysig bod yr Ymddiriedolaeth yn deall unrhyw risgiau y gall cynlluniau arbedion eu hachosi i berfformiad neu ansawdd gwasanaeth. Prin iawn yw'r dystiolaeth a welsom o wybodaeth yn cael ei chyflwyno'n effeithiol i'r pwyllgor neu'r Bwrdd am effaith cynlluniau arbedion ar berfformiad neu ansawdd. O ran amseroldeb, canfuom fod un cynllun arbedion a nodwyd yng nghynllun arbedion 2016-17 wedi'i enwi'n 'llithriant ar brosiectau'. Gwnaeth y cynllun penodol hwn orgyflawni o £145,000 yn erbyn ei darged, sy'n awgrymu nad yw rhai prosiectau sy'n mynd rhagddynt yn yr Ymddiriedolaeth yn gwneud cynnydd mor gyflym â'r bwriad.

### Cynnydd o ran ymdrin ag argymhellion cynllunio a rheoli ariannol blaenorol

48 Yn 2016, gwnaed yr argymhelliad canlynol gennym mewn perthynas â rheoli ariannol. Mae Arddangosyn 3 yn disgrifio'r cynnydd a wnaed.

Arddangosyn 3: cynnydd ar argymhelliad rheoli ariannol 2016

| Argymhelliad 2016 | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| A1 2016<br>Dylai'r Ymddiriedolaeth adolygu cynnwys ei adroddiadau ariannol i'r Bwrdd. Dylai'r adolygiad ystyried a fyddai mantolen monitro gwybodaeth, crynodeb o'r risgiau a'u heffaith bosibl a gorwariant sy'n gysylltiedig â dadansoddiad o'r materion sylfaenol yn darparu dealltwriaeth well. | **Heb ei gwblhau**<br>Nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi adolygu'n ffurfiol gynnwys yr adroddiad ariannol a gyflwynir i'r Bwrdd, er mwyn adlewyrchu'r materion a godwyd yn ein hargymhelliad<br>Mewn adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Medi, cafodd y dyddiad targed ar gyfer gweithredu'r argymhelliad hwn ei estyn i 31 Rhagfyr 2017. |

## Llywodraethu a sicrwydd – mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud rhai gwelliannau amlwg i'w threfniadau llywodraethu eleni ond cymysg yw'r cynnydd ym maes rheoli risg, mae heriau wedi codi mewn perthynas â chyllid a chynnal sefydliadau allanol ac mae angen atgyfnerthu trefniadau llywodraethu gwybodaeth ymhellach

49 Mae ein gwaith asesu strwythuredig yn 2017 wedi ystyried trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer cynllunio strategol, strwythur y sefydliad, effeithiolrwydd y bwrdd a'i bwyllgorau a fframweithiau sicrwydd, rheoli risg, trefniadau llywodraethu gwybodaeth a threfniadau ar gyfer cyflwyno adroddiadau ar berfformiad. Rydym hefyd wedi asesu'r cynnydd yn erbyn yr argymhellion a wnaed yn 2016. Nodir ein canfyddiadau isod.

### Cynllunio strategol - eleni, unwaith eto, sicrhaodd yr Ymddiriedolaeth gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer ei Chynllun Tymor Canolig Integredig ond arweiniodd tybiaethau cyllido nas gwireddwyd a'r bwlch cyllido a gafwyd o ganlyniad i hynny at gyfres o gamau gweithredu i ailflaenoriaethu amcanion ei chynllun.

50 Mae'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn seiliedig ar ein hadolygiad o ddull cynllunio strategol yr Ymddiriedolaeth. Nodir ein canfyddiadau allweddol isod.

51 Yn ystod ein cyfweliadau eleni, gwnaeth yr Aelodau Annibynnol sylwadau cadarnhaol am y broses o lunio'r Cynllun Tymor Canolig Integredig. Disgrifiwyd proses o graffu iteraidd ganddynt, lle y cafodd yr Aelodau Annibynnol sawl cyfle i wneud sylwadau ar gynnwys y cynllun drafft. Gwnaeth yr Aelodau Annibynnol sylwadau cadarnhaol hefyd am gryfderau'r cynllun a ddeilliodd o'r broses.

52 Ymddengys bod gallu ac adnoddau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer cynllunio yn gwella. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi creu rolau newydd ar gyfer arbenigwyr corfforaethol ac is-adrannol ym maes cynllunio. Mewn blynyddoedd blaenorol, bu'r broses o ddatblygu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig wedi'i hysgogi'n ganolog gan y tîm cynllunio corfforaethol. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf,

ymddengys bod mwy o weithredu integredig, gyda phenaethiaid is-adrannol gwasanaethau yn arwain y broses gynllunio yn eu meysydd gwasanaeth, gyda chymorth priodol gan staff cynllunio arbenigol, yn hytrach nag fel arall. Dywedwyd wrthym hefyd fod staff o'r adran Cyllid a'r Gweithlu a Datblygu Sefydliadol wedi chwarae mwy o ran yn y gwaith o ddatblygu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig o ddechrau'r broses gynllunio, er mwyn gwella'r dull integredig o gynllunio.

53 Ym mis Ionawr 2017, cymeradwyodd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth y Cynllun Tymor Canolig Integredig drafft ar gyfer y cyfnod rhwng 2017-18 a 2019-20. Cyflwynwyd y cynllun i Lywodraeth Cymru ac ym mis Mehefin 2017 hysbyswyd y Bwrdd bod Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo'r Cynllun Tymor Canolig Integredig mewn egwyddor.

54 Roedd y Cynllun Tymor Canolig Integredig yn cynnwys tybiaethau y byddai cyllid yr Ymddiriedolaeth yn cynyddu mewn perthynas â'r canlynol:

- cyllid ar gyfer effaith gylchol Dyfarniad Cyflog 2016-17 (£0.451 miliwn) a'r newid i Yswiriant Gwladol (£0.894 miliwn);
- ymgodiad o 2% yn y Cytundebau Hirdymor â'r Byrddau Iechyd (£1.356 miliwn);
- cyllid ar gyfer achos busnes a oedd yn ymwneud â gwasanaethau radiotherapi Canolfan Ganser Felindre (£0.4 miliwn); a
- chyllid ar gyfer costau gwasanaethau a oedd yn ymwneud â chyffuriau cost uchel newydd eu cymeradwyo.

55 Mae'r Comisiynwyr wedi cytuno ar yr ymgodiad yn y Cytundebau Hirdymor, ac mae trafodaethau'n parhau mewn perthynas â'r achos busnes dros radiotherapi a chostau gwasanaethau sy'n ymwneud â chyffuriau newydd. O ran y dyfarniad cyflog ac yswiriant gwladol, mewn cyd-drafodaethau rhwng yr Ymddiriedolaeth a'r comisiynwyr, methwyd â dod i gasgliad boddhaol, felly aeth y mater gerbron cymrodeddwyr yn Llywodraeth Cymru (fel y'i nodir ym mharagraff 33). Penderfynodd Llywodraeth Cymru o blaid y comisiynwyr, a adawodd fwlch cyllido o £1.345 miliwn yn y cynllun.

56 Mewn ymateb i benderfyniad y cymrodeddwyr, mae'r Ymddiriedolaeth wedi edrych eto ar ei rhestr o weithgareddau arfaethedig ar gyfer eleni. Datblygodd yr Ymddiriedolaeth ddogfen yn nodi'r gweithgareddau hyn a'r opsiynau ar gyfer gohirio rhai ohonynt. Cynhaliwyd sesiwn ddatblygu arbennig i'r Bwrdd er mwyn myfyrio ar yr opsiynau ac mae'r tîm Cyllid a'r is-adrannau wedi bod yn ymgymryd â gwaith cynllunio senarios, er mwyn paratoi ar gyfer toriadau mewn cyllidebau. Mae'r Bwrdd hefyd wedi cymeradwyo cynnig i drosglwyddo £700,000 o gronfeydd wrth gefn yr Ymddiriedolaeth er mwyn lliniaru effaith y bwlch cyllido.

57 Mae'r pwysau ariannol ar yr Ymddiriedolaeth wedi cael eu dwysáu gan broblemau cyllido sy'n gysylltiedig â'r rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser. Tra oedd yn aros am benderfyniad ynghylch p'un a fyddai Llywodraeth Cymru yn parhau â'r cyllid, penderfynodd y Bwrdd dalu rhai o gostau parhaus y rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser ar ei fenter ei hun (a drafodir ymhellach ym mharagraff 107). Mae'r mater hwn wedi ychwanegu at yr ansicrwydd ariannol ac wedi arwain at ragor o waith cynllunio senarios ynghylch pa weithgareddau y dylid parhau â hwy a pha rai y dylid eu gohirio.

58 Mewn cyfweliadau, mae swyddogion ac Aelodau Annibynnol wedi codi pryderon ynglŷn â'r ffordd y mae Felindre yn cael ei hariannu. Dywedwyd wrthym, wrth gyd-drafod cyllid â byrddau iechyd, fod yr Ymddiriedolaeth wedi cael anawsterau hirdymor i gyflwyno tystiolaeth argyhoeddiadol o gynnydd yn y

galw am ei gwasanaethau a gwir gost gwasanaethau. Rydym yn gwneud argymhelliad newydd ynglŷn â'r mater hwn.

59 Mae'r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn cynnwys Datganiad Llesiant amlwg, mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae'r Cynllun Tymor Canolig Integredig hefyd yn cynnwys y gyfres gyntaf o Amcanion Llesiant yr Ymddiriedolaeth. Ceir saith amcan, y mae pob un ohonynt wedi'i fapio'n unol ag un neu fwy o Nodau Llesiant y Ddeddf. Mae camau gweithredu eraill sy'n ymwneud â'r Ddeddf wedi cynnwys ffurfio gweithgor a chodi ymwybyddiaeth ymhlith yr Aelodau Annibynnol fel rhan o sesiwn ddatblygu i'r Bwrdd. Cyfyngwyd ar unrhyw gynnydd pellach oherwydd ymadawiad yr aelod o staff a oedd yn gyfrifol am arwain gwaith ar y Ddeddf. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymryd camau cynnar, pwysig i godi ymwybyddiaeth o'r Ddeddf ond mae'r broses o ymgorffori'r Ddeddf yn y sefydliad ar gam cynnar iawn yn ei datblygiad o hyd.

### Strwythur y sefydliad - mae'r Ymddiriedolaeth wrthi'n ceisio cael eglurder ynglŷn â'i threfniadau i gynnal sefydliadau allanol a'u hatgyfnerthu yn sgil adroddiad beirniadol ar gofnodi digwyddiadau a oedd yn ymwneud â Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru ac efallai y bydd angen i'r Ymddiriedolaeth feddwl yn fwy strategol ynglŷn â sut i greu trefniadau gweithio is-adrannol cydlynus

60 Mae asesiadau strwythuredig blaenorol wedi trafod cymhlethdodau a achoswyd gan yr Ymddiriedolaeth am ei bod yn cynnal nifer o sefydliadau allanol[2] ar ran GIG Cymru. Y llynedd, cydnabuom fod yr Ymddiriedolaeth yn gweithio'n galed i sicrhau bod trefniadau llywodraethu cyrff a gynhelir yn gweithredu'n effeithiol. Yn benodol, roedd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gytuno ar drefniadau cliriach ar gyfer llywodraethu Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru.

61 Mae ein cyfweliadau ag Aelodau Annibynnol eleni yn awgrymu bod diffyg eglurder o hyd ynglŷn â threfniadau llywodraethu Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru. Eleni, codwyd problem benodol yng Ngwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru a dynnodd sylw at bwysigrwydd diffinio'r trefniadau llywodraethu yn fwy eglur. Yn sgil cyfres o ddigwyddiadau difrifol a oedd yn ymwneud â gweithredu systemau TG cenedlaethol, comisiynodd Llywodraeth Cymru Uned Gyflawni GIG Cymru i adolygu'r ffordd y rheolir digwyddiadau difrifol sy'n ymwneud â Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru. Daeth yr adroddiad i'r casgliad nad oedd y ffordd y rheolir digwyddiadau difrifol rhwng Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, ymddiriedolaethau a byrddau iechyd yn gadarn. Tynnodd yr adroddiad sylw hefyd at ddiffyg eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau pob parti.

62 Tynnodd adroddiad arall eleni sylw at broblemau yn nhrefniadau llywodraethu Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru. Ar gais Llywodraeth Cymru, comisiynodd Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru adroddiad gan Archwilwyr Mewnol, sef yr Adolygiad Annibynnol o Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru. Dywedodd yr adroddiad fod trefniadau llywodraethu Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn hynod gymhleth, gydag amrywiol raddau o atebolrwydd i Lywodraeth Cymru, yr Ymddiriedolaeth a rhanddeiliaid eraill o fewn GIG Cymru.

63 Dywedodd yr Adolygiad Annibynnol o Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru hefyd y dylid adolygu'r trefniadau atebolrwydd presennol i Bwyllgor Archwilio'r Ymddiriedolaeth. O dan y trefniadau presennol

[2] Y cyrff hyn yw Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, a Gweithlu a Thechnoleg Iechyd Cymru.

mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn darparu pecyn llywodraethu i bob cyfarfod arall o Bwyllgor Archwilio'r Ymddiriedolaeth. Dywedodd yr adroddiad fod y trefniadau presennol ond yn rhoi sicrwydd annibynnol cyfyngedig ar y cyfan ac y byddai'n fuddiol pe bai'r trefniadau presennol yn cynnwys cyflwyno cynllun archwilio penodol y cytunwyd arno i'w ystyried gan Bwyllgor Archwilio'r Ymddiriedolaeth.

64 Mae'r Ymddiriedolaeth a Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn cymryd nifer o gamau gweithredu mewn ymateb i'r ddau adroddiad hyn. Ar adeg ein gwaith, roedd Pwyllgor Archwilio'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu cynnal trafodaeth arall ar y ffordd orau o olrhain y gwaith o roi camau gweithredu'r Adolygiad Annibynnol o Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru ar waith. Un o'r camau gweithredu eraill yn yr adroddiad y cytunwyd arno oedd y dylai Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru geisio cadarnhad gan Lywodraeth Cymru ar ei drefniadau llywodraethu. Mewn ymateb i adroddiad yr Uned Gyflawni, mae Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio'r Ymddiriedolaeth wedi cytuno ar brotocol newydd ar gofnodi digwyddiadau â Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru a bwriedir olrhain camau gweithredu pellach drwy Bwyllgor Archwilio'r Ymddiriedolaeth. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi penderfynu cymryd camau tra'n aros am gamau gweithredu gan Lywodraeth Cymru er mwyn mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn yr Adolygiad Annibynnol o Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru. Mae Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol yr Ymddiriedolaeth wedi drafftio dogfen o'r enw Gofynion Sicrwydd Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, sy'n amlinellu'r hyn sydd ei angen ar yr Ymddiriedolaeth gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru mewn perthynas â llywodraethu a sicrwydd. Fe'i cymeradwywyd gan Brif Weithredwr yr Ymddiriedolaeth a chaiff ei rhannu â Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn awr. Mae adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru ar Systemau Gwybodeg GIG Cymru yn ystyried trefniadau llywodraethu sy'n ymwneud â Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru ymhellach.

65 Mae Felindre bellach yn cynnal corff ychwanegol, yn sgil y penderfyniad i sefydlu Technoleg Iechyd Cymru. Dywedodd papur a ystyriwyd gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth ym mis Medi 2017 fod y corff yn cael ei sefydlu i gefnogi dull cenedlaethol strategol o nodi, arfarnu a mabwysiadu technolegau iechyd anfeddyginiaethol mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol. Y bwriad oedd y byddai Technoleg Iechyd Cymru yn agor yn swyddogol ym mis Tachwedd 2017. Bydd angen i'r Ymddiriedolaeth sicrhau ei bod yn dysgu'r gwersi o'r problemau llywodraethu gyda Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru pan fydd yn cadarnhau ac yn cymhwyso trefniadau llywodraethu Technoleg Iechyd Cymru.

66 Nododd asesiad strwythuredig y flwyddyn ddiwethaf gamau gweithredu sy'n cael eu cymryd i sicrhau cydweithio agosach rhwng is-adrannau'r Ymddiriedolaeth. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymryd camau gweithredu pellach i hyrwyddo cydweithio eleni, gan gynnwys:

- grwpiau melin drafod traws-sefydliadol sy'n deillio o'r strategaeth datblygu sefydliadol;
- y rhaglen datblygu arweinwyr draws-sefydladol;
- y bwriad i benodi cyfarwyddwr meddygol cyffredinol sy'n cwmpasu Gwasanaeth Gwaed Cymru a Chanolfan Ganser Felindre, wedi'i (l)leoli ym mhencadlys yr Ymddiriedolaeth; a
- grwpiau cydweithio ar faterion penodol megis cydymffurfio â Pholisi Taliadau'r Sector Cyhoeddus, parhad busnes a gwybodaeth busnes.

67 Er gwaethaf y camau gweithredu hyn, datgelodd ein cyfweliadau safbwyntiau cymysg ar y cynnydd a wnaed i gefnogi cydweithio rhwng is-adrannau. Er bod rhai a gyfwelwyd yn teimlo bod cynnydd da wedi'i wneud, roedd eraill yn teimlo bod cydweithio yn parhau i ddibynnu'n fawr ar unigolion. Cymysg hefyd fu'r farn ar b'un a ddylid rhoi blaenoriaeth i gydweithio rhwng yr is-adrannau, o ystyried yr heriau a wyneba'r Ymddiriedolaeth ar hyn o bryd. Heb gydberthnasau agosach rhwng yr is-adrannau, credwn

fod risg o weithio mewn seilos, dyblygu ymdrechion a bylchau mewn dysgu sefydliadol. Dylai'r Ymddiriedolaeth ystyried sut y dylid lliniaru risgiau posibl o'r fath drwy ddatblygu gweledigaeth strategol gliriach ar gyfer gweithio sefydliadol integredig.

## Effeithiolrwydd y Bwrdd a'i bwyllgorau a fframweithiau sicrwydd - mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymryd camau gweithredu clir i wella effeithiolrwydd y Bwrdd a'i bwyllgorau ac mae rhaglen sicrwydd newydd i'r bwrdd yn gyfle allweddol i atgyfnerthu'r fframwaith sicrwydd ymhellach

68 Mae'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn seiliedig ar ein hadolygiad o effeithiolrwydd y bwrdd, a'i strwythurau llywodraethu a'i drefniadau sicrwydd. Nodir ein canfyddiadau allweddol isod.

69 Bu rhai gwelliannau amlwg yn effeithiolrwydd y Bwrdd a'i bwyllgorau eleni. Mae'r tîm llywodraethu corfforaethol wedi gweithio'n fwy agos gyda chadeiryddion y pwyllgorau ac mae'r tîm wedi cael presenoldeb mwy gweladwy yng nghyfarfodydd y pwyllgorau. Mae'r tîm wedi datblygu rhaglen gylchol fwy systematig i ystyried a chefnogi busnes ac effeithiolrwydd pob pwyllgor. Mae'r tîm bellach yn rheoli dogfen olrhain i fonitro a helpu i hyrwyddo'r broses o hunanasesu gan y pwyllgorau (a ddylai helpu i gwblhau argymhelliad 2 o'r llynedd, gweler Arddangosyn 4), adolygu cylch gorchwyl pwyllgorau, a chynllunio eu cylch busnes. Felly, er mai cadeiryddion pwyllgorau sy'n gyfrifol am effeithiolrwydd eu pwyllgorau o hyd, maent bellach yn cael cymorth mwy cadarn gan y tîm llywodraethu corfforaethol.

70 Gwnaethom sylwadau y llynedd ynglŷn â gwendidau o ran fformat adroddiadau ar y prif bwyntiau i'r Bwrdd a'r defnydd a wnaed ohonynt. Canfuom fod yr adroddiadau ar y prif bwyntiau yn amrywio o ran maint a manylder rhwng pwyllgorau a dim ond am ychydig roeddent yn cael eu trafod yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd, hyd yn oed pan oeddent yn codi materion pwysig o bosibl. Eleni, nodwn fod fformat newydd yr adroddiadau ar y prif bwyntiau safonol, sy'n categoreiddio materion yn rhai coch, melyn a gwyrdd, yn dibynnu ar eu statws uwchgyfeirio, yn amlwg wedi bod yn fuddiol iawn o ran ychwanegu gwerth at yr adroddiadau diweddaru i'r Bwrdd gan gadeiryddion y pwyllgorau.

71 nododd ein harsylwadau eleni fod cyfarfodydd y Bwrdd a'i bwyllgorau yn parhau i fod yn amgylcheddau cadarnhaol. Caiff cyfarfodydd eu cadeirio'n dda ac er bod agendâu yn brysur, cânt eu rheoli'n dda. Eleni, rydym wedi nodi rhai enghreifftiau penodol o drafodaethau effeithiol iawn a fu'n heriol iawn ar rai materion allweddol. Roedd trafodaeth y Bwrdd ym mis Medi ar yr awydd i fentro yn heriol ac yn bwrpasol. Roedd trafodaeth y Bwrdd ym mis Gorffennaf a'r bleidlais ar leoliad is-ganolfan radiotherapi hefyd yn heriol ond yn ystyriol iawn ac yn onest. Wrth drafod materion o'r fath, ymddangosai fod y Bwrdd wedi'i gysylltu'n dda â materion pwysig, gwirioneddol yr oedd y sefydliad yn eu hwynebu.

72 Mae'r Ymddiriedolaeth yn ystyried gwelliannau eraill i'w phwyllgorau. Fel y nodwyd yn asesiad strwythuredig 2015, cafwyd presenoldeb gwael yn Is-bwyllgor Dysgu Sefydliadol y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ac roedd yr Ymddiriedolaeth yn awyddus i greu amgylchedd mwy dynamig ar gyfer dysgu a rennir. Cymeradwywyd cynnig i ailwampio'r fforwm hwnnw yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Medi 2017. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn ystyried p'un a ddylid creu pwyllgor newydd yn benodol ar gyfer y rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser. Y Pwyllgor Cynllunio a Pherfformiad sy'n craffu ar y rhaglen ar hyn o bryd, ond nid yw'n cyfarfod yn ddigon aml i wneud y penderfyniadau cyflym sydd eu hangen ar gyfer Trawsnewid Gwasanaethau Canser. Ymdrinnir â datblygiadau pellach mewn perthynas â'r Pwyllgor Ymchwil a Datblygu yn Arddangosyn 4.

73 Y llynedd, trafodwyd y risgiau a oedd yn gysylltiedig â'r trosiant ymhlith yr Aelodau Annibynnol a oedd ar fin digwydd. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi rheoli'r broses hon yn dda. Mae'r ddau aelod newydd wedi ymsefydlu yn eu rolau'n gyflym ac maent eisoes yn cael effaith gadarnhaol ar y fforymau y maent yn eu mynychu. Dywedodd yr Aelodau Annibynnol wrthym fod y broses ymgyfarwyddo yn hollgynhwysfawr, gyda'r aelodau newydd yn mynd drwy gyfnod cysgodi a diwrnod hyfforddiant cyn ymgymryd â'u rolau'n ffurfiol. Mae gan yr aelodau newydd drefniadau cyfeillio erbyn hyn fel y gallant gael gafael ar gymorth a chyngor gan aelodau presennol. Mae'r Ymddiriedolaeth bellach yn rhannu gwersi a ddysgwyd o'r dull gweithredu hwn â chyrff iechyd eraill.

74 Mewn cyfweliadau, rhoddodd yr Aelodau Annibynnol farn gadarnhaol ar y cyfan am sesiynau datblygu'r Bwrdd. Am y tro cyntaf eleni, i gyd-fynd â chyflwyno'r Aelodau Annibynnol newydd, mae pob Aelod Annibynnol yn dilyn rhai agweddau ar gynllun hyfforddiant gorfodol yr Ymddiriedolaeth. Er bod hyn wedi bod yn heriol o ran cael amser yn ystod un diwrnod yr wythnos yr Aelodau Annibynnol yn Felindre, soniodd aelodau wrthym am fanteision ychwanegol y rhaglen hyfforddiant o ran eu helpu i gyfarfod â staff gweithredol a thrafod problemau gwirioneddol sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau.

75 Y llynedd, canfuom nad oedd Felindre wedi cynnal proses mapio sicrwydd penodol i'r bwrdd. Anogwyd yr Ymddiriedolaeth i ystyried p'un a allai proses fwy ffurfiol a systematig o fapio risg a sicrwydd atgyfnerthu'r trefniadau sicrwydd presennol.

76 Mae'r tîm llywodraethu corfforaethol bellach yn arwain rhaglen sicrwydd i'r bwrdd. Y bwriad yw datblygu a chytuno ar fframwaith sicrwydd wedi'i fapio i'r bwrdd a fydd yn dechrau gydag amcanion corfforaethol yr Ymddiriedolaeth fel man cychwyn, ac yna'n ystyried y risgiau i gyflawni'r amcanion hynny, y rheolaethau sydd eu hangen i liniaru'r risgiau hynny a'r sicrwydd sydd ei angen. Mae'r rhaglen yn cyfuno amrywiol ddarnau o waith sy'n cael eu gwneud ar ddiwygio'r amcanion corfforaethol, cynllunio, rheoli perfformiad, llywodraethu a risg. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y bwrdd prosiect ym mis Gorffennaf 2017 a'r nod yw rhannu fframwaith cychwynnol â'r Bwrdd cyn mis Ebrill 2018.

77 Mae'r rhaglen ar gam cynnar iawn yn ei datblygiad o hyd felly nid yw'n syndod mai dim ond ychydig o ymwybyddiaeth o raglen sicrwydd y bwrdd a welwyd ymhlith swyddogion ac Aelodau Annibynnol yn ystod ein cyfweliadau. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod y Bwrdd, ac nid dim ond y tîm llywodraethu corfforaethol, yn cymryd perchenogaeth o fframwaith sicrwydd y bwrdd a'r broses o'i ddatblygu. Er bod Aelod Annibynnol wedi cael ei enwi'n bwynt cyswllt i'r Bwrdd, cyfyngedig fu ei ymwneud â'r rhaglen hyd yma. Rydym yn gwneud argymhelliad newydd ynglŷn â'r materion hyn.

78 Yn 2016, gwnaed yr argymhellion canlynol gennym mewn perthynas ag effeithiolrwydd y Bwrdd a'i bwyllgorau. Mae Arddangosyn 4 yn disgrifio'r cynnydd a wnaed.

Arddangosyn 4: cynnydd ar argymhellion a wnaed yn 2016 ynglŷn ag effeithiolrwydd y Bwrdd a'i bwyllgorau

| Argymhelliad 2016 | Disgrifiad o'r cynnydd |
| --- | --- |
| A2 2016<br>**Hunanasesiadau llywodraethu pwyllgorau**<br>Dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod holl bwyllgorau'r Bwrdd yn cynnal hunanasesiad blynyddol o'u heffeithiolrwydd. | **Cwblhawyd**<br>Erbyn diwedd mis Rhagfyr 2017, roedd yr hunanasesiadau wedi'u cwblhau gan bob un o bwyllgorau'r Bwrdd. |
| A3 2016<br>**Tryloywder adroddiadau cyhoeddus**<br>Dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau ei bod yn cydymffurfio â holl ofynion Cylchlythyr Iechyd Cymru 2016 ar adroddiadau cyhoeddus tryloyw. | **Ar y trywydd cywir ond heb ei gwblhau eto**<br>Yn ystod ein hasesiad cychwynnol o wefan yr Ymddiriedolaeth yn 2016 ni welwyd unrhyw dystiolaeth o reolau sefydlog, cyfarwyddiadau ariannol sefydlog, cynllun blynyddol o fusnes y Bwrdd, cynlluniau ymgysylltu â dinasyddion, polisi amseroedd ymweld hyblyg na chynllun diogelwch cleifion ac ansawdd.<br>Mae pob un o'r dogfennau hyn bellach ar gael ar y wefan heblaw cynlluniau ymgysylltu â dinasyddion. |
| A4 2016<br>**Gweithrediad pwyllgorau**<br>Dylai'r Ymddiriedolaeth gynnal asesiad myfyriol o'i ddefnydd o sesiynau pwyllgor Rhan B preifat. Dylai'r asesiad ganolbwyntio ar yr eitemau ar yr agenda sy'n cael eu hystyried mewn sesiynau Rhan B ac a fyddai'n fwy priodol ystyried yr eitemau hyn yn gyhoeddus. | **Ar y trywydd cywir ond heb ei gwblhau eto**<br>Nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi cynnal asesiad penodol eto o'r mater hwn ond, erbyn hyn, mae'r Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol yn adolygu ac yn trafod y mater hwn â chadeiryddion y pwyllgorau cyn pob cyfarfod pwyllgor a chaiff cwestiwn penodol ar ddefnyddio agendâu Rhan B ei gynnwys yn hunanasesiadau pwyllgorau'r Bwrdd yn 2018.<br>Eleni, nodwyd un enghraifft benodol gennym a ddangosodd bwysigrwydd sicrhau bod sesiynau Rhan B yn cael eu defnyddio'n briodol. Yng nghyfarfod Rhan B y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ym mis Medi nodwyd bod adroddiad pwysig ar bryderon a digwyddiadau difrifol wedi'i gynnwys. Roedd yr adroddiad yn cynnwys data hanfodol ar ddigwyddiadau ac er tryloywder, byddai wedi bod yn well pe bai o leiaf ran o gynnwys yr adroddiad wedi cael ei chynnwys yn y sesiwn Rhan A gyhoeddus. |

| Argymhelliad 2016 | Disgrifiad o’r cynnydd |
|---|---|
| A5 2016<br>**Gweithrediad pwyllgorau**<br>Yn seiliedig ar hunanasesiad ac adolygiad o’r cylch gorchwyl ar gyfer y Pwyllgor Ymchwil a Datblygu, dylai’r Ymddiriedolaeth gynhyrchu cynllun gydag amserlen benodol ar gyfer egluro rôl ac atgyfnerthu effeithiolrwydd y pwyllgor. | **Cwblhawyd**<br>Mae’r Ymddiriedolaeth wedi datblygu cynllun ar gyfer atgyfnerthu rôl y pwyllgor. Mae’r swyddog gweithredol arweiniol a’r cyfarwyddwr cynorthwyol a oedd yn gyfrifol am y Pwyllgor wedi gadael yr Ymddiriedolaeth, sydd wedi cymhlethu’r sefyllfa o ran gwneud cynnydd. Am fod yr aelodau hyn o staff wedi gadael a bod un o’r Aelodau Annibynnol yn absennol oherwydd salwch cafodd cyfarfod y pwyllgor ym mis Medi 2017 ei ganslo. Sefydlodd yr Ymddiriedolaeth grŵp gorchwyl a gorffen ym mis Mehefin 2017 i ystyried diben y pwyllgor. Mae wedi penderfynu ailenwi’r pwyllgor yn Bwyllgor Arloesedd ac Ymchwil a diddymu un o’i is-bwyllgorau.<br>Cynhaliwyd cyfarfod anghyffredin o’r Pwyllgor Ymchwil a Datblygu ar 16 Tachwedd 2017 er mwyn adolygu a chymeradwyo’r cylch gorchwyl i’w gyflwyno i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth ar gyfer cymeradwyaeth ar 30 Tachwedd 2017. |
| A9 2016<br>Dylai’r Pwyllgor Archwilio atgyfnerthu’r gwaith craffu ar ymatebion rheolwyr i adroddiadau archwilio, i sicrhau bod y camau gweithredu a gynigir yn berthnasol a bydd yn datrys y materion y cyfeirir atynt yn yr argymhellion hyn. | **Cwblhawyd**<br>Mae Cynllun Gweithredu’r Pwyllgor Archwilio yn cynnwys manylion am argymhellion archwilio sydd eto i’w gweithredu, gwybodaeth am eu statws, a therfyn amser ar gyfer gweithredu ac enw’r swyddog cyfrifol.<br>Mae’r pwyllgor eleni wedi gwneud mwy o waith craffu ar gynnydd tuag at weithredu argymhellion archwilio. Mae wedi cynyddu lefel ei ffocws ar y Cynllun Gweithredu Archwilio ac mae bellach yn canolbwyntio bron yn gyfan gwbl ar argymhellion sydd eto i’w gweithredu neu sydd mewn perygl o gael eu gweithredu’n hwyr. Mae’r Ymddiriedolaeth wedi defnyddio Archwilwyr Mewnol i adolygu cynnwys y cynlluniau gweithredu archwilio ac mae cadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn canolbwyntio ar herio cynnydd tuag at weithredu. |

## Rheoli risg - cymysg fu’r cynnydd o ran mynd i’r afael â’n hargymhellion rheoli risg ac ni chafodd rhai o’r heriau sylweddol a wynebai’r Ymddiriedolaeth eleni eu disgrifio’n ddigon clir yn y gofrestr risg gorfforaethol

79 Mae’r canfyddiadau sy’n sail i’r casgliad hwn yn seiliedig ar ein hadolygiad o effeithiolrwydd trefniadau rheoli risg a chynnydd o ran mynd i’r afael â phroblemau gwella a nodwyd yn flaenorol a oedd yn ymwneud â rheoli risg. Nodir ein canfyddiadau allweddol isod.

80 Y llynedd gwnaethom argymhelliad ac iddo dair rhan ynglŷn â risg. Dywedwyd y dylai’r Ymddiriedolaeth adolygu ei phroses o ddileu risgiau ar y gofrestr risg gorfforaethol, defnyddio gwaith Archwilio Mewnol i asesu effeithiolrwydd uwchgyfeirio risgiau o lefel is-adrannol i lefel gorfforaethol, a safoni fformatau ei gwahanol gofrestrau risg. Cymysg fu’r cynnydd ar y materion hyn ac fe’i disgrifir ymhellach yn Arddangosyn 5.

81 Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae’n amlwg bod y ffordd y mae’r Ymddiriedolaeth yn rheoli risg wedi gwella. Mae trafodaethau am risgiau yn y Bwrdd a’i bwyllgorau yn fwy pwrpasol ac yn seiliedig ar wybodaeth bellach. Mae camau gweithredu wedi cynnwys adolygu naratifau risg a therfynau amser, gwella cywirdeb gwybodaeth yn y cofrestrau a gyflwynir i bwyllgorau, gweithdai risg gyda chyfarwyddwyr ac adroddiadau llinell gyntaf a mynd ati i wella’r ffordd y cofnodir risg.

82 Un cam gweithredu penodol eleni fu adlewyrchu risgiau Trawsnewid Gwasanaethau Canser yn y gofrestr risg gorfforaethol, pan fyddant yn ddigon pwysig. Ystyriodd y Bwrdd ddogfen awydd i fentro hefyd ym mis Medi 2017, gyda’r nod o helpu aelodau’r Bwrdd a swyddogion i ddefnyddio dull gweithredu a therminoleg gyffredin o ran risg. Mae’r Ymddiriedolaeth wedi bod yn dysgu oddi wrth sefydliadau eraill yn y GIG, y sector cyhoeddus a’r sector preifat wrth ddatblygu hyn. Er bod i’r gwaith ar awydd i fentro fwriadau da, awgrymodd y drafodaeth yn y Bwrdd a’n trafodaethau yn ystod cyfweliadau fod angen datblygu dull gweithredu awydd i fentro ymhellach. Efallai y bydd angen gwneud rhagor o waith yn y dyfodol i ailystyried datganiadau manwl ar yr awydd i fentro, er mwyn sicrhau eu bod yn ysgogi penderfyniadau priodol ac yn hwyluso gweithgarwch mentro sydd wedi’i reoli’n dda. Mae’r Ymddiriedolaeth hefyd yn cydnabod yr heriau y mae’n debygol o’u hwynebu wrth weithredu yn y modd hwn ac mae wedi ymrwymo i fonitro’r dull gweithredu newydd yn drylwyr.

83 Mae rhagor o waith i’w wneud i optimeiddio’r ffordd y mae’r Ymddiriedolaeth yn rheoli risg. Mewn adroddiad Archwilio Mewnol ar reoli risg eleni rhoddwyd gradd ‘sicrwydd rhesymol’. Canfu’r adroddiad fod gan yr Ymddiriedolaeth strwythurau, grwpiau a phrosesau priodol ar waith. Canfu hefyd fod polisïau a gweithdrefnau ar gyfer rheoli risg ar waith, ond canfuwyd nad oedd sawl dogfen risg ar y fewnrwyd yn gyfredol mwyach. Yng Nghanolfan Ganser Felindre, canfu’r adroddiad nad oedd yn glir pwy oedd yn gyfrifol yn weithredol am gynnal cofrestrau risg adrannol. Dywedwyd bod prosesau rheoli risg yng Ngwasanaeth Gwaed Cymru o safon uchel ond nodwyd bod nifer fawr iawn o risgiau yn dal i fod ar agor yn ei gofrestr risg. Gwnaeth yr adroddiad bum argymhelliad, sy’n cael eu holrhain bellach drwy Gynllun Gweithredu Archwilio’r Pwyllgor Archwilio.

84 Roedd y gofrestr risg gorfforaethol a gyflwynwyd i’r Bwrdd eleni ond yn cynnwys saith neu wyth risg. Yn gyffredinol, mynegodd y swyddogion a’r Aelodau Annibynnol a gyfwelwyd gennym safbwyntiau cadarnhaol am y gofrestr, gan gredu ei bod yn llwyddo i gofnodi’r risgiau mwyaf a wynebai’r sefydliad. Er ein bod yn cydnabod gwelliant hirdymor yn y ffordd y caiff risg ei thrafod yn yr Ymddiriedolaeth, rydym hefyd yn sylwi y gallai’r gofrestr risg gorfforaethol fod wedi cynnwys disgrifiadau mwy penodol o’r prif heriau sydd wedi codi eleni, er enghraifft:

- problemau cyllido yn y rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser - drwy gydol 2017, mae’r gofrestr risg gorfforaethol wedi cynnwys dwy risg a oedd yn ymwneud â Thrawsnewid

Gwasanaethau Canser, y mae un ohonynt yn sôn yn gyffredinol am fethiant i sicrhau manteision y rhaglen. Fodd bynnag, nid yw'r datganiad risg yn cyfeirio'n benodol at risg sy'n ymwneud â chyllid.

- Tybiaethau cyllido'r Cynllun Tymor Canolig Integredig – drwy gydol 2017, mae'r gofrestr risg gorfforaethol wedi cynnwys risg ynglŷn ar argaeledd gallu radiotherapi digonol o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Fodd bynnag, nid yw'r datganiad risg yn cyfeirio'n benodol at bob cynnydd tybiedig mewn cyllid yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig a'r goblygiadau i'r Ymddiriedolaeth gyfan os na chaiff gynnydd o'r fath.
- anawsterau i recriwtio meddygon iau yng Nghanolfan Ganser Felindre – nid yw'r mater hwn wedi ymddangos ar y gofrestr a gyflwynwyd i'r Bwrdd yn ystod 2017.
- problemau llywodraethu sydd wedi codi mewn perthynas â Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru – nid yw'r mater hwn wedi ymddangos ar y gofrestr a gyflwynwyd i'r Bwrdd yn ystod 2017.

85 Mae'r rhaglen fframwaith sicrwydd i'r bwrdd sy'n mynd rhagddi yn gyfle allweddol i ystyried y camau nesaf tuag at wella'r ffordd y rheolir risg. Gwnaethom argymhelliad newydd ynglŷn â'r materion hyn.

86 Yn 2016, gwnaethom yr argymhellion canlynol mewn perthynas â i reoli risg. Mae Arddangosyn 5 yn disgrifio'r cynnydd a wnaed.

Arddangosyn 5: cynnydd ar argymhellion a wnaed yn 2016 ynglŷn â rheoli risg

| Argymhelliad 2016 | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| A7a 2016<br>Dylai'r Ymddiriedolaeth adolygu ei phroses a'i chyfrifoldebau dros gau i lawr y risgiau hynny sy'n ymddangos ar y gofrestr risg gorfforaethol. | **Cwblhawyd**<br>Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cynnwys adran ychwanegol ar y gofrestr risg gorfforaethol i gofnodi risgiau a gaewyd yn ystod y cyfnod. Mae'r ffurflen gyfeirio a gyhoeddir ar y cyd â'r gofrestr risg hefyd yn cynnwys adran ar gyfer risgiau a gaewyd. Mae'n ofynnol i aelodau'r Bwrdd Rheoli Gweithredol nodi risgiau y gellir eu cau yng nghofrestr risg yr Ymddiriedolaeth. Yna caiff penderfyniad i gau risgiau ei gymeradwyo gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth. |
| A7b 2016<br>Dylai'r Ymddiriedolaeth ddefnyddio'r archwiliad mewnol sydd ar y gweill ar reoli risg i sicrhau barn fanwl ar effeithiolrwydd uwchraddio risgiau o lefel is-adrannol i lefel gorfforaethol. | **Wedi'i gwblhau ond erys problemau**<br>Rhoddodd yr adroddiad archwilio mewnol statws sicrwydd rhesymol ac mae'r gwaith o weithredu argymhellion yr archwiliad mewnol yn cael ei olrhain drwy'r Pwyllgor Archwilio. Fodd bynnag, mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at y ffaith bod angen gwneud rhagor o waith ar reoli risg. |

| Argymhelliad 2016 | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| A7c 2016<br>Dylai'r Ymddiriedolaeth safoni fformat ei chofrestrau risg amrywiol, a sicrhau bod elfennau arfer da pob cofrestr yn cael eu lledaenu ar draws y sefydliad cyfan. | **Nis gweithredwyd**<br>Er i'r Ymddiriedolaeth gytuno ar yr argymhelliad hwn fel rhan o asesiad strwythuredig y flwyddyn ddiwethaf, ers hynny mae wedi penderfynu peidio â gweithredu arno.<br>Mae'r Ymddiriedolaeth wedi penderfynu peidio â safoni ei chofrestrau risg gan ei bod o'r farn nad yw ymagwedd un ateb i bawb yn briodol yn yr achos hwn.<br>Hyd yn oed os yw'r Ymddiriedolaeth yn penderfynu peidio â safoni ei chofrestrau, credwn y byddai'n fanteisiol pe bai'n dadansoddi'r amrywiol gofrestrau ac yn lledaenu elfennau arfer da ym mhob maes. |

Llywodraethu gwybodaeth – mae rhai polisïau llywodraethu gwybodaeth wrthi'n yn cael eu hadolygu ac er bod yr Ymddiriedolaeth yn paratoi ar gyfer y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol, nid yw'r mater hwn yn ymddangos ar y gofrestr risg. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn dysgu gwersi yn sgil ymchwiliad mewnol i achos difrifol o fynediad diawdurdod at ddata

87 Mae'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn seiliedig ar ein hadolygiad o effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu gwybodaeth. Nodir ein canfyddiadau allweddol isod.

88 Canfuom fod gan yr Ymddiriedolaeth bolisïau a gweithdrefnau llywodraethu gwybodaeth ar waith. Er bod yr Ymddiriedolaeth wedi diweddaru cylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth a Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg a'r Polisi ynglŷn â Diogelu Data a Chyfrinachedd, nid yw'r fersiynau ar y wefan yn gyfredol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod nad yw rhai polisïau allweddol eraill yn gyfredol ac maent yn cael eu hadolygu. Mae angen i'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau llywodraethu gwybodaeth priodol a chyfredol ar waith.

89 Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth a Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd ynglŷn â'r risgiau perthnasol a pherfformiad ond nid yw gwarcheidwaid Caldicott yr Ymddiriedolaeth yn ei fynychu'n rheolaidd, fel sy'n ofynnol o dan gylch gorchwyl y pwyllgor. Bydd angen i'r Ymddiriedolaeth adolygu a mynd i'r afael â mater presenoldeb. Bwriedir adolygu is-bwyllgorau'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth a Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg hefyd er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni gofynion yr Ymddiriedolaeth yn effeithiol.

90 Mae'r Ymddiriedolaeth yn monitro ei chydymffurfiaeth â gofynion Caldicott yn ffurfiol, a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (2004). Fodd bynnag, nid yw'n cadw cofnod o brotocolau rhannu gwybodaeth na chytundebau datgelu data yn ffurfiol yn unol â Chytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru, nac yn monitro perfformiad ymatebion i geisiadau gwrthrych am wybodaeth yn ffurfiol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data (1998). Rydym yn gwneud argymhelliad newydd ynglŷn â'r mater hwn er mwyn sicrhau bod gan yr Ymddiriedolaeth gofnodion da o'r data personol y mae'n eu dal, o ble y daethant a chyda phwy y maent yn cael eu rhannu.

91 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen ar gyfer y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol er mwyn gweithredu ar ofynion y rheoliad a fydd yn gymwys yn y DU o 25 Mai 2018. Fodd bynnag, nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi dynodi swyddog diogelu data eto. Gallai methiant i fodloni gofynion y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol arwain at ddirwy fawr a niwed i enw da'r Ymddiriedolaeth. Efallai y dylai'r Ymddiriedolaeth ystyried p'un a ddylai methiant i gydymffurfio â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol ymddangos yng nghofrestrau risg yr Ymddiriedolaeth. Rydym yn gwneud argymhelliad newydd ynglŷn â'r mater hwn.

92 Yn unol â Pholisi Cofnodi Digwyddiadau'r Ymddiriedolaeth, rhoddodd Canolfan Ganser Felindre wybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am dri digwyddiad a amheuir o fynediad diawdurdod at ddata yn ystod y flwyddyn. Ar adeg ein harchwiliad, roedd dau ddigwyddiad wedi cael eu cau gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac roedd un penderfyniad eto i'w wneud. Roedd y mater a oedd eto i'w benderfynu yn ymwneud â digwyddiad lle roedd trydydd parti a oedd yn darparu gwasanaeth diogelu ymbelydredd i Ganolfan Ganser Felindre yn destun ymosodiad seiber. Fel y'i nodwyd yn adroddiad ymchwilio'r Ymddiriedolaeth, roedd hacwyr yn gallu cael mynediad at wybodaeth, gan gynnwys enwau staff, dyddiadau geni, rhifau yswiriant gwladol a'r dosiau o ymbelydredd y mae staff wedi cael eu hamlygu iddynt. Cynhaliodd yr Ymddiriedolaeth ymchwiliad mewnol ym mis Mai 2017, a oedd yn cynnwys naw argymhelliad, gan gynnwys yr angen i sefydlu cofrestr o asedau gwybodaeth i'r sefydliad cyfan. Yn ystod y broses glirio ar gyfer ein hadroddiad, caeodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth y trydydd digwyddiad.

93 Arweiniodd ymosodiad seiber Wannacry, a Chylchlythyr Iechyd Cymru Llywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2017 ar ofynion seiberddiogelwch a llywodraethu gwybodaeth at sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen newydd yn Ymddiriedolaeth Felindre. Caiff y grŵp ei arwain gan y rheolwyr gwasanaethau technegol yng Ngwasanaeth Gwaed Cymru a Chanolfan Ganser Felindre, er mwyn goruchwylio'r broses o weithredu ar argymhellion a ddatblygir yn lleol ac yn genedlaethol. Cyflwynwyd adroddiad ar archwiliad mewnol i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Hydref 2017, a roddodd statws sicrwydd cyfyngedig yn unig. Tynnodd yr archwiliad sylw at faterion, gan gynnwys y ffaith nad oedd swyddog arweiniol wedi'i nodi a bod prinder adnoddau ar gyfer seiberddiogelwch Mae'r Ymddiriedolaeth wedi derbyn yr argymhellion ac mae bellach yn gweithredu arnynt.

94 Yn 2016, gwnaed yr argymhelliad canlynol gennym mewn perthynas â llywodraethu gwybodaeth. Mae Arddangosyn 6 yn disgrifio'r cynnydd a wnaed.

Arddangosyn 6: cynnydd ar argymhelliad a wnaed yn 2016 ynglŷn â llywodraethu gwybodaeth

| Argymhelliad 2016 | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| A10 2016<br>Dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod ganddi Uwch Swyddog Rheoli Gwybodaeth a enwyd. | **Cwblhawyd**<br>Mae'r Ymddiriedolaeth wedi enwi'r Cyfarwyddwr Cyllid fel yr Uwch Swyddog Risg Gwybodaeth. |

### Adroddiadau ar berfformiad – erys y darlun o berfformiad yn yr Ymddiriedolaeth yn gadarnhaol ar y cyfan ac mae adroddiadau ar berfformiad yn parhau i ddatblygu ond ceir anawsterau o hyd o ran meincnodi a mesur canlyniadau

95 Mae'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn seiliedig ar ein hadolygiad o effeithiolrwydd trefniadau adrodd ar berfformiad. Nodir ein canfyddiadau allweddol isod.

96 Fel y nodwyd mewn asesiadau strwythuredig blaenorol, erys y lefelau o berfformiad a ddisgrifir yn yr adroddiadau ar berfformiad yn gadarnhaol ar y cyfan. Dangosodd yr adroddiad ar berfformiad a gyflwynwyd i gyfarfod y Bwrdd ym mis Medi 2017 fod cleifion a rhoddwyr yn parhau i roi graddau uchel o ran eu profiadau yn yr Ymddiriedolaeth, bod Gwasanaeth Gwaed Cymru yn ateb y galw clinigol am gelloedd coch a phlatennau a bod Canolfan Ganser Felindre yn cyrraedd ei thargedau'n rheolaidd, neu'n agos iawn at gyrraedd y rhan fwyaf o'r targedau ynglŷn ag amseroldeb darparu radiotherapi a chemotherapi. Ymhlith y meysydd y tynnwyd sylw atynt fel rhai lle roedd angen ffocws ychwanegol roedd perfformiad radiotherapi lliniarol, canran y bagiau rhannol o waed a gasglwyd gan roddwyr a dwy broblem arall o ran perfformiad mewn cysylltiad â phlatennau am fod darn penodol o gyfarpar yn anweithredol yn ystod cyfnod yr adroddiad.

97 Y llynedd, nodwyd gennym fod yr Ymddiriedolaeth yn cynnal adolygiad o'r Fframwaith Rheoli Perfformiad, gyda'r nod, ymhlith pethau eraill, o fynd i'r afael ag argymhellion blaenorol asesiadau strwythuredig ynglŷn â chyfeirio, systemau codio lliw, sicrhau bod data yn gyfredol, atgyfnerthu naratif ac esbonio cyd-destun dangosyddion perfformiad.

98 Mae'r ffordd y mae'r Ymddiriedolaeth yn cyflwyno adroddiadau ar berfformiad wedi parhau i ddatblygu eleni, ond mae rhagor o gynnydd wedi cael ei lesteirio yn ôl pob tebyg am fod yr aelod o staff a oedd yn arwain yr adolygiad o'r fframwaith rheoli perfformiad wedi gadael. Roedd yr iteriad mwyaf diweddar ar yr adroddiad ar berfformiad a gyflwynwyd i gyfarfod y Bwrdd ym mis Medi wedi cynnwys dull mwy gweledol o gyflwyno data perfformiad a naratif byr sy'n ceisio esbonio perfformiad. Datblygwyd y dull gweithredu hwn yng Ngwasanaeth Gwaed Cymru ac mae'n cael ei gyflwyno ym mhob is-adran. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys crynodeb o welliannau perfformiad a meysydd ar gyfer ffocws ym mhob is-adran, yn ogystal â thabl trosolwg o berfformiad er mwyn tynnu sylw'r Bwrdd at broblemau penodol o ran perfformiad.

99 Mae'r adborth cychwynnol ar y fformat adrodd newydd gan y Bwrdd yn gadarnhaol ar y cyfan, ond mae cyfle o hyd i dynnu sylw at y materion pwysicaf mewn ffordd fwy eglur. Erys problemau anodd eu datrys o hyd mewn perthynas â phrinder data cyffredinol ar feincnodi a chanlyniadau i gleifion. Er nad yw'r problemau hyn yn rhai hawdd eu datrys, o ystyried natur yr Ymddiriedolaeth a phroffil ei gwasanaethau, byddai data cadarn ar feincnodi a chanlyniadau yn fuddiol iawn o ran asesu perfformiad yr Ymddiriedolaeth.

## Ffactorau eraill sy'n galluogi defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau – Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau â'i rhaglenni newid uchelgeisiol ac mae wedi amlinellu ei chynlluniau ar gyfer rhagoriaeth ddigidol ond mae gwendidau mewn cydberthnasau â chomisiynwyr a llwyddiant cymysg a llwyddiant cymysg o ran materion sy'n ymwneud â'r gweithlu

100 Mae ein gwaith asesu strwythuredig yn 2017 wedi ystyried trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer cefnogi'r broses o sicrhau newid, rheoli'r gweithlu, ymgysylltu â rhanddeiliaid a gwaith partneriaeth, a'r defnydd o dechnoleg. Rydym hefyd wedi asesu'r cynnydd yn erbyn yr argymhellion perthnasol a wnaed yn 2016. Nodir ein canfyddiadau isod.

### Trefniadau i gefnogi'r broses o sicrhau newid – mae'r Ymddiriedolaeth wrthi'n rheoli rhai rhaglenni newid mawr sy'n rhoi pwysau ychwanegol ar y sefydliad ond mae ganddynt y potensial i arwain at fanteision sylweddol

101 Mae'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn seiliedig ar ein hadolygiad o'r trefniadau sydd ar waith i gefnogi'r broses o sicrhau newid a thrawsnewidiad. Nodir ein canfyddiadau allweddol isod.

102 Mae Felindre yn sefydliad cymharol fach sy'n mynd drwy rai rhaglenni newid uchelgeisiol. Yn ystod cyfweliadau eleni, dywedwyd wrthym fod graddau'r newidiadau yn rhoi pwysau ychwanegol ar staff ar sawl lefel yn y sefydliad ond mae hefyd yn rhoi cyfle i staff herio eu hunain yn broffesiynol a sbarduno newid hirdymor, cadarnhaol.

103 Mae Felindre wedi datblygu swyddfa rheoli rhaglen yn benodol ar gyfer y rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser ac wedi mabwysiadu'r defnydd o fethodolegau rhaglenni a phrosiectau cydnabyddedig er mwyn cefnogi'r broses o gyflwyno'r rhaglen. Mae Felindre yn defnyddio methodoleg Prince ar gyfer rheoli prosiectau, a Managing Successful Programmes (MSP) ar gyfer ei threfniadau rheoli rhaglenni. Mae Felindre yn ystyried cyfleoedd i safoni'r ffordd y mae'n gweithredu ac yn cymhwyso dulliau rheoli prosiectau ymhellach, gan gynnwys Gwasanaeth Gwaed Cymru a Chanolfan Ganser Felindre.

104 Yn asesiad strwythuredig 2015 gwnaethom ddweud y dylai'r Ymddiriedolaeth asesu'r risg o ran digonolrwydd gallu uwch arweinwyr i gyflwyno newid ar raddfa fawr. Yn ystod haf 2017, roedd yr adran Gweithlu a Datblygu Sefydliadol wedi dechrau gweithredu ar yr argymhelliad hwn drwy ddechrau archwiliad ar raddfa fach i fapio'r prosiectau y mae staff yn ymwneud â hwy, ac asesu effaith y prosiectau hyn ar rolau craidd aelodau o staff. Nid yw'r gwaith hwn wedi mynd rhagddo mor gyflym â'r hyn a obeithiwyd a dylai'r allbynnau o'r gwaith fod wedi cael eu nodi ym mis Tachwedd/Rhagfyr 2017. Rydym yn gwneud argymhelliad newydd ynglŷn â'r mater hwn.

105 Dechreuwyd ar y rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser ar ôl i Lywodraeth Cymru ofyn i'r Ymddiriedolaeth ddatblygu achos busnes i wella gwasanaethau canser ledled De-ddwyrain Cymru. Mae'r rhaglen yn cynnwys adeiladu canolfan ganser newydd, is-uned radiotherapi newydd, cyfleusterau allgymorth, a thrawsnewid gwasanaethau. Yn sail i hyn y mae'r uchelgais i ddarparu gofal yn agosach i gartrefi cleifion a sicrhau gwell integreiddio rhwng clinigwyr arbenigwyr yr Ymddiriedolaeth a'r rhai sy'n gweithio yn y rhanbarth.

106 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi rhoi ffocws mawr ar y rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser eleni ac mae'r rhaglen wedi gwneud cynnydd clir tuag at ei nodau. Serch hynny, mae'r rhaglen hefyd wedi dechrau wynebu heriau o ran cyllid, amserlennu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae'r paragraffau isod yn rhoi mwy o fanylion am yr heriau hyn.

107 Roedd Llywodraeth Cymru wedi gohirio ei phenderfyniadau ynglŷn â rhoi rhagor o gyllid i'r rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser nes bod yr adolygiad gan Deloitte LLP a gomisiynwyd ganddi wedi'i gwblhau. Roedd yr adolygiad yn ystyried y prosesau a'r rheolaethau mewn perthynas â'r rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser. Ar adeg drafftio ein hadroddiad nid oeddem wedi gweld canfyddiadau adolygiad Deloitte, ac nid yw ein hasesiad strwythuredig wedi cynnwys unrhyw archwiliad manwl o'r rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser. Fel y'i trafodwyd ym mharagraff 57, gyda chyllid y rhaglen yn dod i ben ym mis Gorffennaf 2017, penderfynodd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth fynd ati i dalu rhai o gostau parhaus y rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau ar ei menter ei hun. Ar adeg ein harchwiliad, bu ansicrwydd ynghylch pryd y byddai penderfyniad gan Lywodraeth Cymru ar ragor o gyllid yn dod i law. Dywedwyd wrthym fod yr ansicrwydd hwn yn ei gwneud hi'n anodd recriwtio a chadw staff yn y rhaglen ac mae'n cymhlethu gwaith cynllunio o fewn Trawsnewid Gwasanaethau Canser. Yn ystod y broses o glirio ein hadroddiad, cafodd gwaith Deloitte LLP ei gwblhau'n derfynol a phenderfynodd Llywodraeth Cymru ryddhau rhagor o gyllid i'r rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser.

108 Mae'r gwaith o adeiladu'r ysbyty newydd yn wynebu amserlen heriol er mwyn bod yn barod i agor i gleifion yn 2022, yn ôl y bwriad. Penderfynodd yr Ymddiriedolaeth ymestyn un elfen o'r broses cais cynllunio er mwyn ei hatal rhag cyd-daro ag etholiadau seneddol. Fodd bynnag, nid arweiniodd hyn at oedi yn yr amserlen yn y pen draw, a chwblhawyd y cam hwn o'r broses gynllunio ym mis Rhagfyr, yn ôl y bwriad.

109 Mae'n cymryd mwy o amser na'r hyn a fwriadwyd i sicrhau cytundeb â pherchennog tir lleol er mwyn cael mynediad i safle'r ysbyty newydd. Mae oedi o'r fath wedi lleihau faint o amser sydd o fewn amserlen y rhaglen ar gyfer hapddigwyddiadau, ond mae'r Ymddiriedolaeth yn nodi ei bod ar y trywydd cywir i ddechrau caffael yn ystod gwanwyn 2018 yn ôl y bwriad. Fel yn achos unrhyw raglen gymhleth o'r fath, pan fydd yr amser ar gyfer hapddigwyddiadau yn lleihau, mae rhagor o broblemau annisgwyl yn fwy tebygol o arwain at oedi cyn cwblhau. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolaeth o'r farn bod cyfleoedd o hyd i gwtogi ar amserlenni ar gyfer rhai gweithgareddau sy'n ymwneud ag adeiladu'r ysbyty newydd a fydd yn helpu i reoli effaith unrhyw broblemau annisgwyl eraill.

110 Er mwyn cefnogi'r broses cais cynllunio cynhaliodd yr Ymddiriedolaeth raglen ymgysylltu helaeth â chymunedau lleol a chyrff cyhoeddus eraill, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i nifer o gyfarfodydd ymgysylltu â'r gymuned ac arddangosfeydd dros y flwyddyn ddiwethaf. Yn ogystal â chefnogaeth gadarnhaol, cododd y rhaglen ymgysylltu wrthwynebiadau gan rai trigolion lleol mewn perthynas â materion amgylcheddol a pharcio. Cymeradwyodd Pwyllgor Cynllunio Cyngor Dinas Caerdydd y cais cynllunio amlinellol yn unfrydol ym mis Rhagfyr 2017. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud ymrwymiadau cadarn i gymryd camau lliniaru i gyfyngu ar effaith y cynllun fel y'u nodwyd yn y cais cynllunio a'r amodau a osodwyd gan y cyngor ac i ystyried ac ymateb i'r safbwyntiau a fynegwyd yn ystod y rhaglen ymgysylltu wrth iddi ddatblygu ei chynlluniau ar gyfer y safle ymhellach.

111 Mae rhaglen newid fawr arall wedi dechrau yng Ngwasanaeth Gwaed Cymru. Mae Cadwyn Cyflenwi Gwaed 2020 yn fenter uchelgeisiol, eang ei chwmpas sy'n ystyried y gwaith o gynllunio, casglu, prosesu a dosbarthu elfennau gwaed i ysbytai yng Nghymru. Mae'r fenter yn anelu at fod yn rhaglen o

wella gwasanaethau er mwyn sicrhau bod y sefydliad yn parhau i fod yn addas at y diben nawr ac yn y dyfodol. Mae gan y fenter tair blynedd ddogfen weledigaeth ddiddorol, cynlluniau gweithredu manwl ac mae'n cael ei harwain gan grŵp gweithredu a chyfarwyddwr rhaglen a enwyd. Mae'r grŵp gweithredu a chyfarwyddwr y rhaglen yn ceisio rheoli faint o bwysau ychwanegol a roddir ar y sefydliad drwy sicrhau bod y rhaglen yn mynd rhagddi ar ?gyflymder diogel.

112 Cymeradwywyd strategaeth datblygu sefydliadol yr Ymddiriedolaeth, Adeiladu Rhagoriaeth, gan y Bwrdd ym mis Rhagfyr 2015. Mae'r strategaeth yn anelu at gyflwyno newid diwylliannol dros y tair i bum mlynedd nesaf, gan gydnabod bod Cynllun Tymor Canolig Integredig yr Ymddiriedolaeth yn rhagweld dyfodol i Felindre a fydd yn cynnwys cryn dipyn o newidiadau i wasanaethau. Mae'r camau sy'n gysylltiedig ag Adeiladu Rhagoriaeth hyd yma wedi cynnwys cyflwyno gwerthoedd ac ymddygiadau corfforaethol, creu grwpiau cyfeirio melin drafod ar gyfer y pynciau sy'n cael sylw yn y strategaeth, digwyddiadau i aelodau'r Bwrdd gysylltu â staff gweithredol, cynhadledd ar arweinyddiaeth a mwy.

113 Cynhaliwyd gwerthusiad mewnol o Adeiladu Rhagoriaeth ar ddechrau 2017. Defnyddiodd y gwerthusiad nifer o ffynonellau o wybodaeth, gan gynnwys arolwg ar-lein o 18 o aelodau o staff yn unig, er mwyn asesu cynnydd tuag at yr allbynnau a'r canlyniadau a nodwyd yn y model sefydliadol yn Adeiladu Rhagoriaeth. Daeth y gwerthusiad i'r casgliad bod Adeiladu Rhagoriaeth wedi dechrau cael rhai effeithiau cadarnhaol ar aelodau unigol o staff ac ar y sefydliad yn ei gyfanrwydd. Fodd bynnag, mae effaith a dylanwad y strategaeth hyd yma wedi bod yn fach iawn o gymharu â'r allbynnau a'r canlyniadau a ddiffiniwyd yn y strategaeth, yn enwedig o ran perfformiad a chynhyrchiant o'r radd flaenaf a hyblygrwydd a chydnerthedd sefydliadol.

## Trefniadau i reoli'r gweithlu mewn ffordd effeithlon, effeithiol a darbodus – cymysg yw perfformiad yr Ymddiriedolaeth o ran y gweithlu. Mae gwaith cynllunio'r gweithlu ar gam cynnar iawn yn ei ddatblygiad a bu anawsterau o ran recriwtio ac arfarniadau

114 Mae'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn seiliedig ar ein hadolygiad o'r trefniadau i reoli'r gweithlu mewn ffordd effeithlon, effeithiol a darbodus. Nodir ein canfyddiadau allweddol isod.

115 Mae asesiadau strwythuredig blaenorol yn mynd yn ôl i 2014 wedi tynnu sylw at y ffaith bod lle i wella gwaith cynllunio'r gweithlu. Cydnabu sawl cyfwelai eleni unwaith eto fod gwaith cynllunio'r gweithlu yn dal i fod ar gam cynnar iawn yn ei ddatblygiad yn yr Ymddiriedolaeth. Er bod y rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser wedi dechrau modelu anghenion y gweithlu yn yr hirdymor ar gyfer gwasanaethau canser, nid yw gwaith cynllunio'r gweithlu ar gyfer yr hirdymor yn beth cyffredin eto. Mae grŵp 'melin drafod', a ddeilliodd o'r gwaith ar y strategaeth datblygu sefydliadol, yn canolbwyntio'n benodol ar gynllunio'r gweithlu ac ar adeg ein harchwiliad roedd ar fin gwneud argymhellion i'r bwrdd gweithredol. Mae gwaith ar gynllunio'r gweithlu hefyd yn yr arfaeth fel rhan o fenter Cadwyn Cyflenwi Gwaed 2020 yng Ngwasanaeth Gwaed Cymru.

116 Mae data o ffurflenni monitro ariannol cyrff iechyd yn awgrymu bod Felindre yn gwario llai o arian ar staff asiantaeth na'r rhan fwyaf o gyrff iechyd eraill yng Nghymru (gwariant ar staff asiantaeth fel cyfran o gyfanswm y gwariant). Mae'r data hefyd yn awgrymu bod Felindre yn perfformio'n gymharol dda o ran lefelau absenoldeb oherwydd salwch a'r amser a gymerir i recriwtio staff.

117 Er bod cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch yn Felindre yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru, nid yw'r Ymddiriedolaeth yn cyrraedd targed Llywodraeth Cymru. Eleni, gwelwyd ymdrech gan reolwyr i

fynd ati i reoli absenoldeb staff, a chynhaliwyd archwiliadau o absenoldeb yng Ngwasanaeth Gwaed Cymru a Chanolfan Ganser Felindre a gwaith manwl ar achosion absenoldeb gan yr adran Gweithlu a Datblygu Sefydliadol. Fodd bynnag, gwnaeth ail archwiliad gan Archwilwyr Mewnol ar reoli absenoldeb unwaith eto roi sicrwydd cyfyngedig eleni. Tynnodd yr Archwilwyr Mewnol sylw at amrywiadau o ran defnyddio amser i ffwrdd o'r gwaith yn lle tâl, rhai problemau o ran cofnodi gwyliau a nifer o faterion a oedd yn ymwneud â'r broses o reoli salwch. Mae ymateb yr Ymddiriedolaeth i adroddiad yr Archwilwyr Mewnol yn awgrymu ei bod bellach yn archwilio absenoldeb oherwydd salwch ym mhob adran o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn datblygu gweithdrefn newydd ar gyfer amser i ffwrdd o'r gwaith yn lle tâl er mwyn sicrhau cysondeb drwy'r Ymddiriedolaeth gyfan. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddod o hyd i ateb TG i wneud ffeiliau e-bersonél yn fwy hygyrch er mwyn helpu rheolwyr i reoli salwch yn well ac mae'r Ymddiriedolaeth wrthi'n ceisio gwella ei phrosesau o gofnodi a monitro gwyliau blynyddol.

118 Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi rhoi llawer o ffocws rheoli ar adolygiadau o berfformiad a datblygu eleni. Mae ffocws manwl o'r fath wedi cyfrannu at welliant cyffredinol yng nghyfraddau cwblhau adolygiadau o berfformiad a datblygu rhwng mis Ebrill 2016 a mis Gorffennaf 2017, ond nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi cyrraedd ei tharged o 85% mewn unrhyw fis penodol eleni. Ar lefel is-adrannol, Canolfan Ganser Felindre sydd â'r cyfraddau cwblhau isaf a Gwasanaeth Gwaed Cymru sydd â'r cyfraddau cwblhau uchaf o ran adolygiadau o berfformiad a datblygu. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod ei bod yn cael anhawster i sicrhau bod cwblhau adolygiadau o berfformiad a datblygu yn flaenoriaeth uchel ym mhob un o feysydd yr Ymddiriedolaeth ac mae angen iddi ddod o hyd i ffordd o droi ei ffocws rheoli ychwanegol yn welliant cynaliadwy yng nghyfraddau cwblhau adolygiadau o berfformiad a datblygu.

119 Ymddengys bod cydymffurfiaeth â hyfforddiant statudol a gorfodol wedi gwella yn yr Ymddiriedolaeth eleni. Nodwyd cyfradd cydymffurfiaeth gyffredinol o 53% ym mis Chwefror 2016 ond ym mis Gorffennaf 2017 roedd y gyfradd wedi cynyddu i 67% (er bod y metrig wedi newid a'i fod bellach yn cyfeirio at ddim ond y deg eitem o hyfforddiant sy'n ymddangos yn y fframwaith sgiliau craidd). Mae'n rhaid i staff ddefnyddio swyddogaethau hunanwasanaethu y Cofnod Staff Electronig i gael gafael ar eu slipiau cyflog erbyn hyn ac mae'r system yn cyflwyno eu data ar gydymffurfiaeth â hyfforddiant iddynt. Ymddengys bod gwneud y data hyn yn fwy gweladwy yn annog staff i gysylltu'r adran Gweithlu a Datblygu Sefydliadol i ofyn am yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt.

120 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi wynebu rhai cymhlethdodau o ran recriwtio eleni. Yng nghyfarfod y Pwyllgor Gweithlu a Datblygu Sefydliadol ym mis Medi, trafododd yr aelodau broblem ddifrifol ynglŷn ag anhawster i recriwtio meddygon iau yng Nghanolfan Ganser Felindre. Mae'r Ymddiriedolaeth wrthi'n ystyried model staffio gwahanol bellach, er mwyn lleihau ei dibyniaeth ar feddygon iau yng Nghanolfan Ganser Felindre. Bu anawsterau hefyd o ran recriwtio fferyllwyr a gwyddonwyr yng Nghanolfan Ganser Felindre a Gwasanaeth Gwaed Cymru. Ymddengys bod yr ansicrwydd ynglŷn â chyllid Trawsnewid Gwasanaethau Canser a natur dros dro y prosiect yn achosi cymhlethdodau o ran recriwtio hefyd. Mae'r cymhlethdodau hyn yn tanlinellu ymhellach bwysigrwydd gwaith cadarn, hirdymor i gynllunio'r gweithlu yn yr Ymddiriedolaeth (gweler paragraff 115).

Trefniadau ymgysylltu â rhanddeiliaid a gwaith partneriaeth - mae problemau cyllido wedi amlygu gwendidau yn y gydberthynas rhwng yr Ymddiriedolaeth a'i chomisiynwyr, ac erys problemau o hyd o ran effeithiolrwydd y Fforwm Partneriaeth Lleol

121 Mae'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn seiliedig ar ein hadolygiad o'r trefniadau sydd ar waith i ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid a gweithio gyda phartneriaid. Nodir ein canfyddiadau allweddol isod.

122 Mae'r achos cymrodeddu (gweler paragraffau 33 a 38) a'i faterion cyllido cysylltiedig wedi amlygu gwendidau yn y gydberthynas rhwng yr Ymddiriedolaeth a'i byrddau iechyd comisiynu. Yn y pen draw, methodd yr Ymddiriedolaeth â darbwyllo ei chomisiynwyr bod y cyllid presennol a roddir iddi yn annigonol. Yn ystod cyfweliadau, dywedodd swyddogion ac Aelodau Annibynnol wrthym fod yr Ymddiriedolaeth wedi cael anhawster ers blynyddoedd lawer i ddisgrifio'n ddiffiniol y galw am wasanaethau canser a welir yng Nghanolfan Ganser Felindre ac mae hefyd wedi cael anhawster i ddisgrifio'n gywir gost wirioneddol y gwasanaethau y mae'n eu darparu. Heb ddata gwell ar y galw a chostau, efallai y bydd yr Ymddiriedolaeth yn cael anhawster i ddangos dilysrwydd ceisiadau am gyllid yn y dyfodol. Mae hon yn risg benodol mewn perthynas â'r rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser lle nad yw'r comisiynwyr, er y dywedir eu bod yn cefnogi'r model clinigol ar y cyfan, wedi cytuno i'w gyllido eto. Ymddengys bod y gwaith sy'n mynd rhagddo ar fodel contractio ariannol newydd yn hanfodol er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn.

123 Arwydd arall o'r cyfle i wella gwaith partneriaeth rhwng yr Ymddiriedolaeth a'i chomisiynwyr yw ymwneud cyfyngedig partneriaid o ran cyfrannu at Gynlluniau Tymor Canolog Integredig ei gilydd. Dywedwyd wrthym mewn cyfweliadau bod ymgysylltu rhwng yr Ymddiriedolaeth a'i chomisiynwyr wedi tueddu i fod yn drafodiadol, yn hytrach na strategol, sy'n arwain at bosibilrwydd o gamalinio rhwng eu gwahanol gynlluniau a strategaethau.

124 Yn 2016, gwnaed yr argymhelliad canlynol gennym mewn perthynas ag ymgysylltu â rhanddeiliaid a gwaith partneriaeth. Mae Arddangosyn 7 yn disgrifio'r cynnydd a wnaed.

Arddangosyn 7: cynnydd ar argymhelliad a wnaed yn 2016 ynglŷn ag ymgysylltu â rhanddeiliaid a gwaith partneriaeth

| Argymhelliad 2016 | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| A8 2016<br>Dylai'r Ymddiriedolaeth adolygu cylch gwaith a chylch gorchwyl y Fforwm Partneriaeth Lleol, o ystyried bod grwpiau partneriaeth lefel is-adrannol yn darparu fforwm gwell mae'n debyg ar gyfer ymgysylltu ag undebau. | **Wedi'i gwblhau ond erys problemau**<br>Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cwblhau ei hadolygiad o gylch gorchwyl y Fforwm Partneriaeth Lleol ond dywedwyd wrthym am broblemau o hyd o ran presenoldeb ac ymgysylltu gwael yn y fforwm unwaith eto eleni.<br>Mae hunanasesiad y Fforwm Partneriaeth Lleol wedi'i gwblhau a chyflwynir adroddiad ar y canlyniad i'r cyfarfod nesaf.<br>Mae Cyfarwyddwr Cynorthwyol y Gweithlu wrthi'n cwblhau amserlen sicrwydd ar y cyd ag adolygiad o'r cylch gorchwyl er mwyn sicrhau bod y Fforwm Partneriaeth Lleol yn cyflawni ei ddyletswyddau fel y'u hamlinellwyd yn y cylch gorchwyl ac fel y'u dirprwywyd gan y Bwrdd. Caiff hyn ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf. |

TGCh a'r defnydd o dechnoleg – mae diffyg strategaeth gwybodeg wedi cyfrannu at oedi wrth fabwysiadu ymagwedd Ymddiriedolaeth gyfan tuag at wybodeg. Mae rhaglen rhagoriaeth ddigidol amlinellol strategol newydd yn gonglfaen allweddol o ran atgyfnerthu'r ffordd y caiff gofynion lleol a chenedlaethol eu bodloni

125 Mae'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn seiliedig ar ein hadolygiad o'r gwasanaethau gwybodeg. Nodir ein canfyddiadau allweddol isod.

126 Yn 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Iechyd a Gofal Gwybodus – Strategaeth iechyd a gofal cymdeithasol ddigidol i Gymru', a oedd yn cynnwys gofyniad ar sefydliadau'r GIG i ddatblygu strategaethau digidol lleol. Nododd canllawiau cynllunio ar gyfer 2017-20 'organisations will be expected to develop a strategic outline programme (SOP), led by a named board-level executive and clinical lead with accountability for delivery…setting out a clear five year view of investment requirements for technology and digitally-enabled service change in both revenue and capital terms. This must be approved by the Board'.

127 Ni fu gan Felindre strategaeth ddigidol na strategaeth gwybodeg gyfredol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, cymeradwyodd y Bwrdd raglen amlinell strategol (RhAS) ar gyfer Rhagoriaeth Ddigidol Gwybodeg ym mis Mawrth 2017. Caiff y RhAS ei hadolygu'n ffurfiol bob blwyddyn, o dan oruchwyliaeth y Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth a Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg, a chaiff ei phrosiectau unigol eu rhoi ar waith drwy achosion busnes penodol.

128 Ar adeg drafftio, roedd yr Ymddiriedolaeth yn bwriadu datblygu strategaeth ddigidol a chynnal adolygiad o wybodeg drwy'r sefydliad cyfan. Bydd yr adolygiad yn nodi meysydd lle y gellir mabwysiadu dull corfforaethol o ymdrin â gwybodeg a lle y caiff dull is-adrannol ei gadw.

129 Yn ystod y flwyddyn, gwnaed rolau wedi'u secondio Cyfarwyddwr Cyswllt Gwybodeg yr Ymddiriedolaeth a Phennaeth TG ar gyfer Gwasanaeth Gwaed Cymru yn swyddi parhaol. Cynorthwyir Cyfarwyddwr Cyswllt Gwybodeg yr Ymddiriedolaeth gan ddau bennaeth TG, gydag un yng Ngwasanaeth Gwaed Cymru ac un yng Nghanolfan Ganser Felindre.

130 Mae'r RhAS yn tynnu sylw at yr angen am adnoddau ychwanegol mewn perthynas â'r adran wybodeg, llywodraethu gwybodaeth a diogelwch gwybodaeth. Mae'n amlygu cymhlethdodau a achoswyd gan gyllid dros dro ar gyfer swyddi a phroblemau gyda blaenoriaethu a gofynion croes prosiectau TG, a arweiniodd at ddyrannu adnoddau mewn ffordd aneffeithlon ac oedi mewn prosiectau.

131 Yn 2016, gwnaed yr argymhelliad canlynol gennym mewn perthynas â TGCh a'r defnydd o dechnoleg. Mae Arddangosyn 8 yn disgrifio'r cynnydd a wnaed.

Arddangosyn 8: cynnydd ar argymhelliad a wnaed yn 2016 ynglŷn â TGCh a'r defnydd o dechnoleg

| Argymhelliad 2016 | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| A6 2016<br>**Gweithrediad pwyllgorau**<br>Hwyluso presenoldeb gwell ac ymgysylltiad ehangach yng nghyfarfodydd pwyllgorau, yn ogystal â lleihau'r amser a'r costau sy'n gysylltiedig â theithiau staff, dylai'r Ymddiriedolaeth bennu targed penodol ar gyfer cynyddu'r defnydd o gyfleusterau fideo gynadledda. | **Cwblhawyd**<br>Nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi pennu targed penodol ond mae'n ceisio defnyddio fideogynadledda'n amlach drwy hysbysu pob un sy'n mynychu cyfarfod bod cyfleusterau fideogynadledda ar gael a thrwy ailgyhoeddi'r cyfeiriadur o gyfleusterau fideogynadledda ym mhob rhan o'r Ymddiriedolaeth. Erys lle o hyd i wella'r elw o fuddsoddiad mewn fideogynadledda drwy fonitro i ba raddau y defnyddir y cyfleusterau.<br>Mae enghraifft o'r ffordd y mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu ar yr argymhelliad hwn yn amlwg o'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol ym mis Tachwedd 2017. Cyflwynodd tri aelod o staff eu hadroddiadau drwy fideogynadledda.<br>Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi caffael system meddalwedd bwrdd electronig a fydd yn cynorthwyo cyfarfodydd dibapur o'r Bwrdd. |

# Atodiad 1

## Ymateb rheolwyr yr Ymddiriedolaeth i argymhellion asesiad strwythuredig 2017

### Arddangosyn 9: ymateb y rheolwyr

Mae'r tabl canlynol yn nodi argymhellion 2017 ac ymateb y rheolwyr.

| Argymhelliad | | Canlyniad/ budd a fwriedir | Blaenoriaeth uchel (ie/na) | Derbyniwyd (do/naddo) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A1 | Dylai'r Ymddiriedolaeth adolygu'r ffordd y mae'n cynllunio arbedion ariannol er mwyn lleihau ei dibyniaeth ar gynllunio arbedion anghylchol a nodi opsiynau arbedion cynaliadwy realistig yn y dyfodol. | Ymagwedd tymor hwy gynaliadwy tuag at arbedion | Ie | Do | Bydd yr Ymddiriedolaeth yn adolygu ac yn atgyfnerthu'r ffordd y mae'n cynllunio arbedion ariannol drwy weithredu proses gadarnach o nodi a phennu arbedion cylchol realistig drwy'r uwch dimau rheoli is-adrannol.<br>Bydd hyn yn cynnwys ymwneud a chyfrifoldeb llawn yr uwch dimau rheoli is-adrannol yn y broses o bennu amserlen ffurfiol, neilltuo cyfrifoldebau unigol, cytuno ar brosesau gwerthuso a gofynion adrodd parhaus.<br>Bydd yr Ymddiriedolaeth hefyd yn adolygu ei thempledi adrodd er mwyn rhoi data manylach, sy'n cynnwys mwy o wybodaeth ar arbedion mewn adroddiadau i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth a'i bwyllgorau. | Chwefror 2018 | Cyfarwyddwr Cyllid a Gwybodeg |

| Argymhelliad | | Canlyniad/ budd a fwriedir | Blaenoriaeth uchel (ie/na) | Derbyniwyd (do/naddo) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A2 | Dylai'r Ymddiriedolaeth werthuso llwyddiant a methiant cynlluniau arbedion yn flynyddol a defnyddio'r gwersi a ddysgwyd i wella'r ffordd y mae'n cynllunio arbedion. Dylai canlyniadau'r gwerthusiad gael eu cynnwys fel gwybodaeth sy'n ategu'r cynllun arbedion a gymeradwyir gan y Pwyllgor Cynllunio a Pherfformiad bob blwyddyn. | Dysgu gwersi er mwyn gwella'r broses o gynllunio a chyflawni cynlluniau arbedion | | Do | Caiff gwerthusiad blynyddol ei gynnal a'i gynnwys fel gwybodaeth sy'n ategu'r cynllun arbedion blynyddol. | Chwefror 2018 | Cyfarwyddwr Cyllid a Gwybodeg a Chyfarwyddwyr Is-adrannol |
| A3 | Dylai'r Ymddiriedolaeth adolygu'r wybodaeth am arbedion ariannol sy'n cael ei chynnwys ar hyn o bryd yn yr adroddiad ariannol a ddefnyddir gan y Bwrdd a'i bwyllgorau. Dylai'r adolygiad ystyried p'un a yw'r lefel bresennol o wybodaeth yn ddigonol i'w gwneud yn bosibl i graffu'n fanwl ar gyflawni cynlluniau arbedion a thargedau. | Gwell gwaith craffu ar y ffordd y cyflawnir arbedion ariannol | | Do | Bydd yr Ymddiriedolaeth yn adolygu'r wybodaeth am arbedion ariannol a gynhwysir yn yr adroddiad ariannol a ddefnyddir gan y Bwrdd a'i bwyllgorau gyda'r nod o sicrhau bod gwybodaeth ddigonol i'w galluogi i graffu'n fanwl ar gyflawni cynlluniau arbedion a thargedau. | Mawrth 2018 | Cyfarwyddwr Cyllid a Gwybodeg |

| Argymhelliad | | Canlyniad/ budd a fwriedir | Blaenoriaeth uchel (ie/na) | Derbyniwyd (do/naddo) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A4 | O ystyried yr anawsterau o hyd o ran y bwlch cyllido yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig, a'r tebygolrwydd y bydd y pwysau ariannol yn parhau, dylai'r Bwrdd gytuno ar ffordd o gryfhau'r ffordd y mae'n craffu ar ddrafftiau o'r Cynllun Tymor Canolig Integredig a'r tybiaethau ariannol a geir ynddo yn y dyfodol. | Rheoli sefyllfa ariannol a risgiau'r Ymddiriedolaeth yn strategol yn well | Ie | Do | Caiff gallu'r Bwrdd i graffu ar gynlluniau'r Cynllun Tymor Canolig Integredig a thybiaethau ariannol ei atgyfnerthu drwy ddefnyddio adroddiadau mwy penodol ar y tybiaethau ariannol, y risgiau a'r dewisiadau sydd ar gael yn ystod camau cynllunio'r Cynllun Tymor Canolig Integredig.<br>Caiff amser penodol ei neilltuo yn ystod sesiynau'r Bwrdd i'w alluogi i graffu a dod i gasgliadau. | Mawrth 2018 | Cyfarwyddwr Cyllid a Gwybodeg |
| A5 | Mae'r gwaith presennol ar fodel contractio ariannol yn hanfodol i alluogi'r Ymddiriedolaeth i gryfhau ei sefyllfa mewn cyd-drafodaethau ynglŷn â'i chyllid, ac atgyfnerthu'r ffordd y mae'n cynllunio arbedion. Dylai'r Ymddiriedolaeth amlinellu amserlen glir ar gyfer cwblhau'r gwaith hwn a dylai roi adroddiadau rheolaidd ar gynnydd i'r Bwrdd. | Data cywir a chynhwysfawr ar gostau gwasanaethau a'r galw amdanynt er mwyn llywio gwaith cynllunio ariannol | Ie | Do | Mae'r prosiect presennol yn mynd rhagddo ac, fel y'i disgrifir yn yr adroddiad hwn, mae wedi cael y dasg o gyflawni model contractio ariannol newydd yn ystod 2018/19.<br>Bydd Adroddiad Cyllid y Bwrdd yn cynnwys adroddiadau rheolaidd ar gynnydd. | Rhagfyr 2017 | Cyfarwyddwr Cyllid |

| Argymhelliad | | Canlyniad/ budd a fwriedir | Blaenoriaeth uchel (ie/na) | Derbyniwyd (do/naddo) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A6 | Yn ystod y flwyddyn nesaf, dylai'r Ymddiriedolaeth adolygu cynnydd o ran gweithredu Gofynion Sicrwydd Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru er mwyn asesu a yw'r trefniadau newydd yn arwain at drefniadau llywodraethu a sicrwydd mwy effeithiol. | Trefniadau cadarnach ar gyfer cynnal Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru | | Do | Bydd yr Ymddiriedolaeth yn adolygu effeithiolrwydd gofynion sicrwydd arfaethedig Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru chwe mis ar ôl eu gweithredu ac yn cyflwyno adroddiad i gyfarfod dilynol y Pwyllgor Archwilio. | Medi 2018 | Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol |
| A7 | O ystyried y lefel isel o ymwybyddiaeth o raglen sicrwydd y bwrdd ymhlith yr Aelodau Annibynnol, dylai'r Ymddiriedolaeth ddatblygu cynllun i wella perchenogaeth, cyfranogiad ac ymwybyddiaeth o'r rhaglen o fewn y Bwrdd. | Mwy o berchenogaeth gan y Bwrdd o raglen sicrwydd y bwrdd | | Do | Cyflwynwyd y cynnydd ar brosiect gweithredu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd i'r Bwrdd yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2017.<br>Mae Aelod Annibynnol arweiniol wedi cael ei nodi ar gyfer ymgysylltu rheolaidd.<br>Bwriedir cynnal gweithgarwch ymgysylltu parhaus wrth i'r fframwaith gael ei ddatblygu gyda'r bwriad llwyr o ddefnyddio sesiwn seminar y Bwrdd er mwyn sicrhau ei fod yn addas at y diben. | Mehefin 2018 | Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol |

| Argymhelliad | | Canlyniad/ budd a fwriedir | Blaenoriaeth uchel (ie/na) | Derbyniwyd (do/naddo) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A8 | Fel rhan o raglen sicrwydd y bwrdd dylai'r Ymddiriedolaeth adolygu ei chofrestr risg gorfforaethol, er mwyn sicrhau ei bod yn cwmpasu risgiau sy'n gysylltiedig â chyflawni blaenoriaethau sefydliadol yr Ymddiriedolaeth, yn ogystal â'r risgiau gweithredol mwyaf. Dylai'r adolygiad gynnwys elfen ôl-weithredol er mwyn gweld p'un a allai ac a ddylai'r risgiau a ddaeth i'r golwg eleni, fod wedi cael eu disgrifio'n fwy effeithiol yn y gofrestr. | Trefniadau rheoli risg cadarnach yn seiliedig ar well dealltwriaeth o'r risgiau | Ie | Do | Caiff adolygiad ei gynnal yn ystod sesiwn ddatblygu'r Tîm Gweithredol ym mis Mawrth 2018. | Mai 2018 | Cyfarwyddwr Nyrsio, Ansawdd a Gwella Gwasanaeth |

| Argymhelliad | | Canlyniad/ budd a fwriedir | Blaenoriaeth uchel (ie/na) | Derbyniwyd (do/naddo) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A9 | Ochr yn ochr â chreu ei chofrestr o asedau gwybodaeth, dylai'r Ymddiriedolaeth ddatblygu cofnod o brotocolau rhannu gwybodaeth a chytundebau datgelu data er mwyn sicrhau ei bod yn olrhain y ffyrdd y caiff gwybodaeth bersonol ei rhannu. | Cofnodi cofnodion data personol a rhannu gwybodaeth (cydymffurfiaeth â Chytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru) mewn ffordd fwy cynhwysfawr | | Do | Mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu Cynllun Gweithredu ar gyfer y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol sy'n cynnwys gofyniad i adolygu cytundebau prosesu data, a dogfennu'r rhanddeiliaid y mae'r Ymddiriedolaeth yn rhannu data â hwy a'r cytundebau sydd ar waith. Mae'r gwaith hwn yn cael ei gynnal yn unol â datblygu'r Gofrestr Asedau Gwybodaeth, a bydd y gofrestr yn cofnodi'r protocolau rhannu gwybodaeth a'r cytundebau datgelu data sydd ar waith, gan alluogi'r Ymddiriedolaeth i olrhain y ffyrdd y caiff gwybodaeth bersonol ei rhannu. | Mai 2018 | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwybodeg |
| A10 | O ystyried pwysigrwydd y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol a'r dirwyon mawr posibl, dylai'r Ymddiriedolaeth ystyried cynnwys y posibilrwydd o fethu â chydymffurfio â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yn ei chofrestr risg | Cydymffurfiaeth â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol | | Do | Cafodd yr asesiad risg ei gwblhau a'i ystyried yng nghyfarfod y Bwrdd Rheoli Gweithredol ym mis Rhagfyr. Cytunodd y bwrdd i'w uwchgyfeirio i'w gynnwys ar gofrestr risg yr Ymddiriedolaeth, sydd i'w chyflwyno i'r Bwrdd ym mis Ionawr 2018. | Ionawr 2018 | Cyfarwyddwr Cyllid a Gwybodeg |

| Argymhelliad | | Canlyniad/ budd a fwriedir | Blaenoriaeth uchel (ie/na) | Derbyniwyd (do/nadd o) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A11 | O ystyried graddau'r newidiadau sy'n mynd rhagddynt yn y sefydliad, dylai'r Ymddiriedolaeth, fel mater o frys, weithredu ar ein hargymhelliad yn 2015 ynglŷn ag asesu risg o ran digonolrwydd uwch arweinwyr a'r gallu i reoli newid | Mwy o ymwybyddiaeth o'r risgiau sy'n gysylltiedig â gallu uwch arweinwyr a rheolwyr prosiectau | Ie | Do | Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cynnal arolwg o uwch reolwyr i ganfod effaith prosiectau newid strategol a rhaglenni gwaith. Caiff y canlyniadau eu cyflwyno i'r tîm gweithredol ar ddechrau 2018 ynghyd â disgrifiad o'r cymorth sydd ar gael i'r unigolion hyn.Yna, bydd y tîm gweithredol a'r Bwrdd yn ystyried y casgliadau mwy cyffredinol ynglŷn â gallu arweinwyr. | Mai 2018 | Cyfarwyddwr Datblygu Sefydliadol a'r Gweithlu |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Phone: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.archwilio.cymru

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru